PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

75c | Rhif 450 | Mehefin 2022



Tlws coffa i Lona a Helen t.17



Gwirfoddolwyr prysur t.14

Lle mae nhw nawr? t.8



# Twrnament Eric ac Arthur Thomas

Braf oedd bod nôl yn ein Twrnament lleol dros 3 diwrnod ac fe fu cannoedd o blant ifanc yn ôl ar Cae Baker yn chwarae pêl-droed.

Nos Wener oedd noson y timoedd dan 16 oed gyda Llanilar A yn dod allan yn Enillwyr gyda Llanilar B yn ail. Cyflwynwyd plac am y chwaraewr gorau gan Sioned Martin & Catrin Galbraith (merched y diweddar Eric Thomas) i Connor Robinson o Benrhyn-coch. Gwnaed y plac gan ŵr Sioned, Matthew – Matt's Pyro & Paintings

Dyddiau Sadwrn a Sul cafwyd cystadlu brwd o dan 6, dan 8, dan 10, dan 12, a dan 14. Er fod y rhai ifancaf yn anghystadleuol roedd y cystadlu yr un peth. Enillodd y Trallwng o dan 14 gyda Ystwyth Rhinos B yn ail.

O dan 12 yr enillwyr oedd Ieuenctid Bow Street ac yn ail oedd Penrhyn-coch Dynamos.

Cyflwynwyd y cwpan i'r ferch orau yn ystod y penwythnos, er cof am Gwenno Tudor gan ei rhieni Ann a Hugh Tudor i Carys Pugh Jones – Penrhyn-coch Pumas

Diolch i Dale yn Seren Signs am wneud yr arwyddion i gyd ar gyfer yr Ŵyl; diolch i Tesco Aberystwyth am eu rhodd haelionus o roliau bara a diolch i'r holl dimoedd a'u rheolwyr, y rhieni, gwirfoddolwyr ac aelodau'r pwyllgor a diolch yn fawr iawn i'n noddwyr.

**Gweler hefyd fwy o luniau ar t.9**




Dynamos Penrhyn-coch - ail o dan12 oed



Carys Pugh Jones



Enillwyr dan 12 Ieuenctid Bow Street



Chwaraewr gorau dan 14 - Carter Norris, Teirw Bow Street

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**


**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 07737 622034
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 07939 652273
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, Y Nyth, Llanilar, Aberystwyth, SY23 4NZ
☎ 01974 241087
ionadavies752@btinternet.com
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY
cetmorgan@yahoo.co.uk 07966 510195]
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**ADOLYGIADAU LLYFRAU**
**Llinos Dafis**, Cedrwydd, Llandre
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Heulwen Lewis**, Deiniol, Capel Bangor
☎ 880413 heulwenlewis@btinternet.com
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296

CYMRAEG


# dyddiadur

**RHIFYN MEDI Dyddiad cau** Medi 2. **Dyddiad cyhoeddi** Medi 15

**GORFFENNAF 9** Dydd Sadwrn, Diwrnod hwyl Trefeurig Pen-bont Rhydybeddau. Cerddoriaeth byw, bwyd a stondinau o 2.00 ymlaen

**GORFFENNAF 9** Dydd Sadwrn, Cowboi Ffest yn Nhafarn y Roosters, Penrhyn-coch; £10; codi arian i Ambiwlans Awyr Cymru am 7.00

**AWST 3** Dydd Mercher Darlith flynyddol Cymdeithas Emynau Cymru. Trystan Lewis 'Ieuan Gwyllt a Thanymarian' ar faes Eisteddfod Tregaron ym Mhabell y Cymdeithasau 2 am 10.30.

**MEDI 5** Nos Lun, Cyfarfod blynyddol y TIncer drwy gyfrwng Zoom am 7.00

**MEDI 21** Nos Fercher, Noson agoriadol Cymdeithas y Penrhyn yng nghwmni Caryl Lewis. yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.30

**HYDREF 22** Nos Sadwrn, Ysgol Gerdd Maldwyn yn cyflwyno Y Mab Darogan yn y Neuadd Fawr am 8.00.

## Pris y Tincer 2022/23

Penderfynwyd ym Mhwyllgor y Tincer ar 8 Mehefin gadw at y pris o 75c y rhifyn am 2022/23 (70c wrth y drws). Mae y Pwyllgor yn ddiolchgar am bob cefnogaeth.

## RHODDION

Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhodd isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeirhas neu gyngor.

Cyngor Genau'r-glyn **£200**






## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Mai 2022

**£25** (Rhif 25) Gwyneth A Edwards, Annwylfan, Pen-y-garn
**£15** (Rhif 174) Parch Wyn Morris, Berwynfa, Penrhyn-coch
**£10** (Rhif 79) Wendy Reynolds, 63 Ger-y-llan, Penrhyn-coch

Fe dynnwyd y rhifau buddugol yng nghartref y trefnydd. Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch gwybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970880228 neu ar ebost **m.e.bebb@talk21.com**


Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

## 30 mlynedd yn ôl




Tîm pêl-droed Ysgol Pen-llwyn. Rhes gefn: (o'r chwith): Huw Spink, John Bird, Huw Jones, Sean Hince, Deiniol Williams, Mr Ian Jones (Hyfforddwr), Rhes flaen (o'r chwith): Mark Rowland, Dylan Jenkins, Paul Rowland, Matthew Clement, Rhodri Jenkins, Charlie Oldryd. (o *Dincer* Mehefin 1992)

# Llythyr

**Annwyl Olygydd**

Mae Mynyddoedd Cambria yn gorwedd rhwng Mynyddoedd Eryri yng ngogledd Cymru a Bannau Brycheiniog yn y de. Mae'r ardal yn un o'r mannau mwyaf anghysbell a heddychlon yng Nghymru gyda thirwedd unigryw ond heb unrhyw ddynodiad swyddogol ar gyfer ei warchod.

Ffurfiwyd Cymdeithas Mynyddoedd Cambria yn Ebrill 2005 i hyrwyddo mesurau a fydd yn cynnal neu'n gwella'r dirwedd, harddwch naturiol, bio-amrywiaeth, archeoleg, diddordeb gwyddonol a threftadaeth ddiwylliannol Mynyddoedd Cambria.

Mae Cymdeithas Mynyddoedd Cambria yn ymgyrchu i gael ei ddynodi'n gyfreithiol fel Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol neu AHNE (AONB). Mae AHNE yn dirwedd eithriadol ddynodedig y mae ei chymeriad nodedig a'i harddwch naturiol yn ddigon gwerthfawr i'w diogeli yn genedlaethol.

Mae AHNE yn dirweddau deinamig byw sy'n sail i economi, iechyd a lles Cymru. Tra bod gan Ogledd a De Cymru sawl Parc Cenedlaethol ac AHNE mae tirwedd ucheldirol godidog Canolbarth Cymru yn parhau i fod yn ddryslyd heb ei chydnabod. Diffiniwyd prif bwrpas dynodiad AHNE gan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 fel Gwarchod a Gwella Harddwch Naturiol.

Mae Cymdeithas Mynyddoedd Cambria wedi lansio deiseb yn gofyn i'r Senedd gynnal dadl ar y cynnig y dylai Mynyddoedd Cambria gael eu dynodi'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae angen 10,000 o lofnodion i'w gwneud yn ofynnol i'r Senedd ystyried y mater. Er y gall unrhyw un o gwbl lofnodi mae'r Pwyllgor Deisebau yn rhoi pwys ar lofnodion a chyfeiriadau yng Nghymru . Os gwelwch yn dda dangoswch eich cefnogaeth ac arwyddwch y ddeiseb. Cysylltwch ar y ddolen

https://petitions.senedd.wales/petitions/245150

neu ewch i'r wefan

www.cambrian-mountains.co.uk

Yr eiddoch yn gywir
**Brian Davies**

# Cylch Cinio Aberystwyth

Penderfynwyd mentro allan i gynnal ein cyfarfod mis Mehefin yn un o bentrefi dalgylch Aberystwyth a chafodd aelodau'r Cylch Cinio groeso cynnes iawn yng Nghlwb Pel-droed Penrhyn-Coch. Angharad Jones oedd ein siaradwraig wadd a hoeliodd sylw'r aelodau ar wahanol agweddau o'r gwasanaeth Iechyd. Merch o Gapel Seion yw Angharad ac wedi gadael Ysgol Gyfun Penweddig bu'n dilyn cwrs nyrsio plant ym Mhrifysgol Swydd Stafford. Yn dilyn hynny mae ei phrofiadau o ddilyn cyrsiau, o hyfforddi, ac o brofiadau yn y maes yn gwbwl eithriadol. Ar hyn o bryd mae'n ddarlithydd Addysg Gofal Iechyd ym Mhrifysgol Aberystwyth gyda'r bwriad o o gychwyn rhaglen addysgu nyrsio cyn-gofrestredig.

Mae gwreiddiau Angharad yn ddwfn yn naear Capel Seion ac mae'n aelod gwerthfawr o'r gymuned fel aelod o Gymdeithas y Paith ac Ysgol Sul Capel Seion, pwyllgor Neuadd y Paith a than yn ddiweddar yn paratoi newyddion ei hardal ar gyfer papur bro Y Ddolen. Mae'n gyn aelod o'r Urdd a Chôr Penweddig a Chlwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont.

Diolchwyd iddi ar ran yr aelodau gan Wynne Melville Jones, Llanfihangel Genau'r-glyn a soniodd am ddyled unigolion ac yn wir y gymdeithas gyfan i ymroddiad ac angerdd a safon gofal nyrsus. Enillwyd y raffl gan Eddie Jenkins, Llandre.

Yn ail hanner y noson cafodd yr aelodau glywed gan Rees Thomas fel yr aeth ati i ddylunio ac i greu cadair dderw deilwng iawn ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion a gynhelir eleni yn Nhregaron ym mis Awst. Mae'n fraint i'r Cylch Cinio gael cyflwyno un o brif wobrau'r Brifwyl ac mae'n amlwg bod Rees wedi derbyn y gwahoddiad i greu'r gadair fel un o anrhydedd mawr ac iddo fwrw ati gyda'i grefft a'i drylwyredd arferol. Cynhelir seremoni'r Cadeirio ym mhrif bafiliwn yr Eisteddfod ar y prynhawn dydd Gwener Awst 5ed.

Y mis nesaf byddwn yn mynd ar ein trip blynyddol.

BRIDGE HOUSE CLEARANCE

Gardd neu Sied - Gwaredu Ysbwriel
Cartrefi a Busnesau
Trwydded i Gludo Gwastraff
Gwerthu eich ty? Gallwn ei glirio
Yswiriant llawn, Pris am ddim

f 07792457816/01974 261758

# Madog, Dewi / Cefn-llwyd

**Marchnad Aberystwyth 1027 21 Mai**
Gwerthwyd popeth – gyda'r gwerthiant yn rhagori ar ddisgwyliadau pawb gydag amcangyfrifoedd anhygoel fel yr adlewyrchir yn y gwahanol gategoriau –

Defaid lladd (611) Amc £95.20 Mwy £155 gan Lewis, Gorlan.
Hyrddod lladd (37) Amc £155 Mwy £210 gan Innovis, Peithyll.
Ŵyn blwydd (122) Amc £67.50 Mwy £140 gan Innovis, Peithyll.
Ŵyn gwanwyn (19) Amc £117.50 Mwy £127 gan Williams, Bwlchbach.
Ŵyn a mamogiaid (238) Amc £120 Mwy £228 gan Hopkins, Llwynhefin.
Ŵyn a mamogiaid Mwy £76 yr un.
Roedd y trêd yn anhygoel fel yr uchod a diolch i bawb am eu cefnogaeth.

**Seiclydd o fri**
Gyda'r Tincer yn mynd i'r wasg roedd Stevie Williams drwodd i cam 3 y ras Tour de Suisse.

**Priodas**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Siân Evans, Fferm y Fronfraith a Gwilym Davies, o Ddinas Mawddwy ar achlysur eu priodas yng Nghapel Seion, Llanbadarn Fawr ar yr 28ain o Fai. Gweinyddwyd gan y Parchg Euron Hughes.



**Mae gennym ni stori wych i ddweud wrthych chi – am sioe gŵn sy'n cael ei chynnal i godi arian at Apêl Cemo Bron-glais!**
Mae Canolfan Arddio Newman yng Nghapel Dewi yn llwyfannu sioe gŵn ar ei lawnt ar 6 Awst ac maen nhw'n apelio am geisiadau cŵn. Dywedodd perchennog y Ganolfan Arddio, Dai Hennighan: "Mae'n bwysig ein bod ni'n cefnogi Ysbyty Bron-glais. Mae'n cwmpasu ardal eang a gorau po gyntaf y cawn uned ddydd cemotherapi bwrpasol newydd.

"Mae canser yn cyffwrdd â phawb. Mae'n gwneud cymaint o wahaniaeth i gleifion a'u teuluoedd i gael y gwasanaeth yn agos i'w cartrefi fel nad oes rhaid i chi deithio'n rhy bell i gael triniaeth." Yn trefnu'r sioe gŵn mae rheolwr y ganolfan arddio - Craig Swanson- gyda chymorth yr aelod o staff Karen Beasley, sy'n dangos ei chŵn ei hun yn Crufts. Cynhelir y sioe o dan Reolau'r Kennel Club a bydd yn agor am 10.30am gyda'r beirniadu'n dechrau am 1pm.

Bydd dosbarthiadau pedigri a newydd-deb yn y sioe, gyda gwobrau am y gorau a'r gorau wrth gefn, y ci bach gorau a'r ci hynafol gorau, wedi'u beirniadu gan Mrs Ann Evans. Mae gan y ganolfan arddio a'i siop goffi hefyd flychau casglu ar gyfer yr Apêl.

Mae Apêl Cemo Bron-glais yn anelu at godi'r £500,000 terfynol sydd ei angen ar gyfer y gwaith adeiladu i ddechrau ar uned ddydd cemotherapi bwrpasol newydd ar gyfer Ysbyty Bron-glais, er mwyn gwella profiad y claf yn fawr.



Dywedodd Nicola Llewelyn, Pennaeth Elusennau Iechyd Hywel Dda, sy'n rhedeg yr Apêl: "Rydym yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth Canolfan Arddio Newman. Mae cymaint o syniadau codi arian gwych yn cael eu hystyried i gefnogi'r Apêl. Mae hwn yn argoeli i fod yn ddigwyddiad llawn hwyl."

I gefnogi'r sioe gŵn, neu am fwy o wybodaeth, ewch i Hywel Dda Health Charities: Newmans Fundraising Page (enthuse.com)


# Dôl-y-bont

**Jiwbili**
Bu dathlu'r Jiwbili yng Nghae Felin Fawr ar gyfer trigolion y pentref.

# Trefeurig

**Priodas**
Llongyfarchiadau i Sera Wyn Walker, merch Beth a Bryn Walker ar ei phriodas â Robert Gelsthorpe, mab Dorothy a Colin Galsthorpe briododd yn Amgueddfa Ceredigion ar 4 Mehefin gyda'r brecwast yn dilyn ar ben Rhiw Glais. Treuliwyd y mis mêl yn yr Eidal (Sorrento, Florence a Rhufain). Mae'r cwpl wedi sefydlu yng Nghaerdydd.





## Cyngor Cymuned **Trefeurig**

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth 24 Mai 2022 ar Zoom. Cadeiriwyd gan y Cadeirydd, Gwenan Price. Roedd y cynghorwyr Lowri Emlyn, Delyth James, Shân James, Richard Owen ac Eirian Reynolds yn bresennol ynghyd â'r Clerc a'r Cynghorydd Sir, Caryl Gruffydd Roberts. Derbyniwyd ymddiheurad gan y cynghorydd Mel Evans.

Hwn oedd y cyfarfod cyntaf ers yr etholiadau lleol a oedd wedi'u cynnal ddechrau Mai. Dim ond saith, sef y rhai a restrir uchod, oedd wedi rhoi eu henwau ymlaen ar gyfer bod yn aelodau o'r Cyngor Cymuned, felly ni fu raid cynnal etholiad. Roedd hyn yn golygu bod pedwar lle gwag ar y Cyngor, ac fe fyddai'r Cyngor yn symud ymlaen i'w llenwi.

Fe groesawyd y cynghorydd sir newydd dros Drefeurig, sef Caryl Gruffydd Roberts, ac fe'i llongyfarchwyd ar ei buddugoliaeth. Penderfynodd y Cyngor hefyd nodi ei ddiolchgarwch diffuant i'r cyn-Gynghorydd Sir Dai Mason am ei wasanaeth sylweddol dros y deng mlynedd diwethaf, a'i barodrwydd bob amser i gydweithio gyda'r Cyngor Cymuned.

Gan ei bod yn fis Mai, roedd hwn hefyd yn gyfarfod blynyddol y Cyngor. Roedd penderfyniad wedi'i gymryd rai blynyddoedd yn ôl y byddai'n ddoeth i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd barhau yn eu swyddi am ddwy flynedd, felly fe ailetholwyd Gwenan Price yn Gadeirydd ac Eirian Reynolds yn Is-gadeirydd ar gyfer 2022/23. Etholwyd y canlynol i gynrychioli'r Cyngor ar wahanol gyrff: PATRASA – Gwenan Price; Un Llais Cymru – y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd; Llywodraethwyr Ysgol Penrhyn-coch – Shân James; Neuadd y Penrhyn – Gwenan Price a Delyth James; Cartref Tregerddan – Gwenan Price; Cae Chwarae Pen-bont – i'w ddewis eto; Y wasg – Richard Owen.

Materion yn codi: arwydd Penrhiwnewydd – roedd yr arwydd newydd yn ei le. Gât newydd ar y llwybr ger pont Ty'n Gelli – adroddwyd fod y gât mewn cyflwr da ac roedd hi'n hawdd i'w hagor a'i chau, felly nid oedd yn peri unrhyw rwystr i neb ddefnyddio'r llwybr. Maes Seilo – adroddwyd fod cyflwr yr ardal barcio yn wael mewn mannau gyda rhai tyllau mawr. Hefyd derbyniwyd cwynion fod un o'r trigolion yn gadael defnydd adeiladu etc yno, ac roedd hyn yn achosi anghyfleuster i eraill yn y stad. Penderfynwyd codi'r mater gyda'r Cyngor Sir.

Cynllunio: cais A220096 – ychwanegiad i 19 Ger-y-llan – dim sylwadau.

Adroddwyd y byddai PATRASA yn cynnal Parti yn y Parc ar 11 Mehefin.

Penderfynwyd cynnal y cyfarfod nesaf wyneb yn wyneb yn Neuadd y Penrhyn ar 21 Mehefin, yr un cyntaf yno ers dros ddwy flynedd.


**D J Evans Cyfarwyddwyr Angladdau**

Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad

Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ

Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
djevansfuneraldirectors@gmail.com

**Aberystwyth 01970 615328**
**Penrhyn-coch 01970 820249**
**Machynlleth 01654 700006**


YTincer@googlemail.com


SIOP
**SGIDIAU GWDIHW**
Shan Jones
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL


01970 617092
GWASANAETH
**GOFAL TRAED**
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
MRCPod


## Cyngor Cymuned **Melindwr**

**Cwrdd Blynyddol**

Cynhaliwyd y Cwrdd Blynyddol Nos Iau Mai 19 yn Neuadd Capel Bangor. Llongyfarchwyd Rhodri Davies ar gael ei ail ethol fel Cynghorydd Sir. Cafwyd adroddiad o weithgareddau Cyngor Cymuned Melindwr dros y flwyddyn gan y Cadeirydd Jim Palmer a'r Cynghorydd Sir Rhodri Davies. Diolchodd y ddau i'w cyd-gynghorwyr am eu gwaith a'u hymrwymiad dros y flwyddyn.

Ethol Swyddogion – Cadeirydd – Jim Palmer. Is -Cadeirydd – Sarah Hughes. Clerc – Lynne B Davies.

Yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol cafwyd y cyfarfod misol. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth un cynghorydd.

Pederfynodd Gareth Daniel, Andrea Jones ac Aled Lewis nad oeddynt yn sefyll yr etholiad ym mis Mai; hoffai'r Cyngor ddiolch iddynt am eu gwaith a'u hymrwymiad dros y blynyddoedd. Croesawyd dau gynghorydd newydd - sef Mr Stephen Griffiths a Mr Dilwyn Williams. Mae yna un sedd wag; os oes gan rhywun ddiddordeb mewn ymuno â'r Cyngor cysylltwch â'r clerc neu un o'r cynghorwyr.

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod mis Ebrill fel rhai cywir.

Roedd dau gais cynllunio wedi dod i sylw y Cyngor sef A220155 – dim gwrthwynebiad i'r newidiadau ond pryder ynglŷn â'r parcio. A220128 – dim gwrthwynebiad.

Parc Chwarae- Cyfarfu'r is- bwyllgor ar Mai 25.

Dathliad Jiwbili Platinwm y Frenhines – Mae y Cyngor Cymuned wedi talu am y bathodynnau i blant y Cylch Meithrin a plant Ysgol Pen-llwyn a byddant yn cefnogi y fenter yn ariannol.

Band Eang Broadway Partners – Anogir rhagor o drigolion Melindwr i ddatgan diddordeb.

Cau ffordd dros dro – U1082- Goginan ar gau yn dyddiol o 20/06/2022 hyd 19/08/2022 rhwng 8yb – 5yh

Os hoffech fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod yna cysylltwch â'r clerc.

(ebost- cyngormelindwrcouncil@gmail.com).

Cynhelir y Cyfarfod nesaf nos Iau Mehefin 16eg am 7.30yh yn Neuadd Capel Bangor.

## Cyngor Cymuned **Geneur Glyn**

**Cofnodion ac Adroddiadau ar gael ar wefan y Cyngor:** cyngorcymunedgeneurglyn communitycouncil.wordpress.com

**Dyddiad y Cyfarfod**: 16.05.2022 yn Ysgoldy Bethlehem, 'roedd pawb yn presennol.
(Os dymunwch fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod, cysylltwch â'r Clerc).

**Trafodwyd**:

- Croesawyd 2 Aelod newydd sef Cyng Peter James a Cyng Gemma Bell. Croesawyd hefyd yr Aelod Lleol newydd Cyng Hugh Hughes
- Enwebwyd Cyng Carwen Hughes Jones fel Cadeirydd am y flwyddyn a Cyng Rhodri Morgan yn Is-Gadeirydd.
- **Materion Cyllid:** Adroddiad llawn ar gael ar wefan y Cyngor. Cytunwyd ar roddion I Mynwent Eglwys Llandre, Mynwent y Garn, Ffrindiau Cartref Tregerddan, Cylch Meithrin Rhydypennau, Treftadaeth Llandre Heritage, Y Tincer.
- **Parc a'r Cyrtiau Tennis**: Gwaith yn parhau I datblygu'r parc.
- **Adroddiad gan y Cyng Hugh Hughes**: Diolchwyd I Cyng Ray Quant am ei waith dros y blynyddoedd.
- **Cyfarfod nesaf**: Cynhelir cyfarfod nesaf o'r Cyngor ar 27Mehefin 2022 yn Ysgoldy Bethlehem am 7.00yh.

Pauline Lucas:
clercgeneurglyn@yahoo.com

## Llandre

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â Meinir a Huw Edwards a'r teulu ar farwolaeth sydyn mam Meinir - Eiry Jones, Llanbedr Pont Steffan ar Fehefin 3ydd.

**Diolch**
Dymuna Mary Thomas, Dolgelynen, ddiolch yn gynnres iawn i bawb a alwodd i'w gweld ddydd ei phen blwydd yn 90, ac am yr anrhegiion a'r cardiau lu a dderbyniodd.





Llongyfarchiadau i Megan am gael y drydedd wobr am ei llun du a gwyn yn Eisteddfod yr Urdd.



Llongyfarchiadau i Enid ddaeth yn drydydd am ysgrifennu sgript yn Eisteddfod yr Urdd.

## Dolau

**Pen blwydd arbennig**
Pen blwydd hapus iawn i Alun Rees, Seintwar ar ei ben blwydd arbennig ym mis Gorffennaf. Dymuniadau gorau oddi wrth y teulu i gyd.

**Sgriptwraig ifanc**
Llongyfarchiadau i Gwenllian King, Ysgol Penweddig, ar ddod yn gyntaf ar gyfansoddi Sgript Wreiddiol Bl.10 a dan 19 oed yn Eisteddfod yr Urdd.

**Priodas aur**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Gruffydd Aled ac Éimear Williams, Bronafon, fydd yn dathlu eu priodas aur ar Orffennaf 1. Priodwyd hwy yn Nulyn ar 1 Orffennaf 1972.

SIOP SGLODION
BOW STREET CHIPPY
4.30pm – 8.30pm
Mawrth – Sadwrn
Mae modd archebu o flaen llaw dros y ffôn
01970 820567

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111
james.memorials@btconnect.com

COPI CYWIR
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

Crefftau Pennau
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau Ac Anrhegion
Ar agor
Llun-Sadwrn
10.00-5.00
Brecwast ar gael
01970 820 050
Pennau

# Goginan

**Capel Y Dyffryn**
Tristwch yw cofnodi fod Capel y Dyffryn wedi cau ar ddiwedd 2021 ond roedd yn Fai 15 cyn cafwyd y Gwasanaeth Datgorffori gyda Bronwen Morgan yn Llywydd ar y cyfarfod. Yn ystod y cyfarfod wrth roi yr emynau allan fe wnaeth y Parchg Ellis Wynne Davies, Dr Gwyn Davies a'r Parchg Ifan Mason Davies roddi ychydig o'i hanes a'u cysylltiad â'r Dyffryn. Darllenwyd ychydig o hanes y Capel gan Aled Bebb. Ar ôl yr oedfa fe gafwyd te, cacen a sgwrs oedd yn reit braf, er mai achlysur trist oedd i gau y drysau am y tro diwethaf.



Llun o'r gynulleidfa ar y noswaith

Dyma'r hanes:-
**CAPEL Y DYFFRYN. GOGINAN**
**1843-2021**
Fe fu Capel Methodistiaid ym mhentref Goginan ers 1843, 179 o flynyddoedd yn ôl. Cyn y dyddiad hynny roedd yr aelodau yn mynychu Capeli ym Mhen-llwyn a Phonterwyd.

Erbyn dechrau 'r flwyddyn 1843 yr oedd y capel wedi ei orffen, a mynwent perthynol iddo, ynghyd a thŷ capel digon o faint i ddau deulu. Codwyd hefyd dŷ golchi yn ymyl y tŷ capel a charreg farch gerllaw, peth pwysig ydoedd carreg fel hon mewn adeg o deithio ar geffylau.

Cynhaliwyd cyfarfodydd i agor y capel newydd Nos Iau a Dydd Gwener, Ebrill 13 a 14,1843. Oedfaon pregethu oedd y rhai hyn, a phregethwyd yn Gymraeg a Saesneg. Erbyn hyn roedd llawer o ddieithriaid wedi ymsefydlu yn yr ardal oherwydd tyfiant y gwaith mwyn. Roedd rhai yn Fethodistiaid Wesleaidd a chefnogant yr achos yn yn Dyffryn hyd nes iddynt gael capel ei hun yn Nhroedrhiw-castell yn y flwyddyn 1861. Adeilawyd Capel Wesleaidd yng Nghwmbrwyno yn 1859.

Er codi y ddau gapel hyn, buan yr aeth yr adeilad yn y Dyffryn yn rhy fach i gynnwys y gynulleidfa a ddeuai yno, a gwelwyd yn fuan iawn fod yn rhaid mynd ati i godi adeilad mwy. Y peth cyntaf oedd rhaid wneud oedd adnewyddu y brydles gyda Stad Gogerddan a oedd yn berchen ar dir Cae Pistyll fel ei galwyd. Cafwyd ychwanegiaid i'r brydles wreiddiol i adeiladu y capel mawr a hefyd tir i sicrhau y byddai yna ddigon o le i'r fynwent dyfu. Cafwyd disgrifiad o'r tir ychwanegol fel hyn " Yr oedd claddfa yn perthyn i'r hen gapel, maent wedi cael rhagor o dir – digon iddynt gynnal cymanfa, gyda codiad yn y tir yn gyfleus"

Cynlluniwyd y capel mawr yn y fath modd y byddai yn bosib creu galeri ynddo os byddai'r gynulleidfa yn parhau i gynyddu. Diwedd 1863 roedd y capel wedi ei orffen a phenderfynwyd ei agor yn swyddogol yr un pryd a'r cyfarfodydd Misol yn Ionawr 1864. Fe wnaeth y gynulleidfa gynyddu am dymor byr ar ôl agor y capel newydd ac roedd yna adeg lle 'roedd bob côr yn llawn ac hefyd mainc yn y cyntedd ar gyfer y rhai oedd yn rhy dlawd i dalu am gôr. Yn 1865 fe adeiladwyd capel yng Nghwmerfin gan fod y daith yn bell i'r aelodau i fynychu'r gwasanaethauyn y Dyffryn, felly collwyd rhai aelodau fel hynny, ond roedd aelodau Capel Cwmerfin yn dal i ddefnyddio mynwent y Dyffryn.

Erbyn Mis Mawrth 1877 roedd y ddyled o godi'r capel newydd wedi ei dalu ac er fod yr aelodaeth ar drai fe benderfynwyd mynd ati yn 1880 i brynu y tir oddi wrth Stad Gogerddan lle safai y capeli a'r adeiladau eraill, a hefyd tir ychwanegol er mwyn ehangu y fynwent.

Yn y flwyddyn 1964 fe fu Cyfarfodydd Dathlu Canmlwyddiant y Capel mawr. Yr adeg hynny Y Parchg Eifion Evans oedd y Gweinidog gyda John Roberts, Llew B Bebb, Gareth B Jones, Thomas Evans , David Herbert a Miss Catherine Rowland yn flaenoriaid.

Trist yw nodi erbyn 1998 a'r aelodaeth lawr i 29 roedd y capel mawr wedi ei gau ac fe'i gwerthwyd ym mis Hydref 1998 gan symud nôl i'r capel bach (neu'r Festri fel yr adnabyddid hi erbyn hynny).

Bu llawer yn weithgar iawn ar hyd y blynyddoedd i gadw yr achos yn fyw a rhaid enwi Mr Gareth Jones, Coedlan a Mr John Roberts, Penbryn, a ordeiniwyd fel blaenoriaid yn 1959, fel arweinwyr yr achos a bu y ddau yn weision ffyddlon i'r achos tan y bu farw Mr John Roberts yn 2010 a Gareth Jones yn 2018.

Rhaid cydnabod mai gwaith fy nhad y diweddar Llewelyn Breese Bebb (a fu yn flaenor am dros 50 mlynedd) yw llawer o'r hanes uchod mewn llyfryn a ysgrifennwyd i ddathlu'r canmlwyddiant yn 1964



**Cyfarchion Pen blwydd**
Hoffwn ddymuno pen blwydd hapus iawn i June Baxter, Oakdale ar gyrraedd oed yr addewid. Dyma lun ohoni gyda ei chyfnither Carol Jones (Evans), Cefnbangor mewn carnifal yng Ngoginan yn dathlu coroni y frenhines. Ble mae'r blynyddoedd wedi mynd!

**Ŵyr Newydd**
Llongyfarchiadau i Wendy a Malcolm Davies, Gwysle, ar enedigaeth eu hŵyr bach Fredi Geoff - mab bach i Huw a Elin a anwyd ar Fehefin 12. Pob lwc iddynt i'r dyfodol.



Marchnad Ffermwyr Aberystwyth

Dydd Sadwrn 1af a'r 3ydd dydd Sadwrn bob mis

www.aberystwythfarmersmarket.co.uk

Cyngor Sir Ceredigion County Council

Canolfan Bwyd Cymru Food Centre Wales



Bancydarren, Capel Dewi, Capel Madog, Cefn-llwyd, Cwmerfyn, Cwmsymlog, Llwyn-prysg, Penrhiwnewydd, Pen-bont Rhydybeddau, Penrhyn-coch, Salem

Gwefan Cymuned Trefeurig

trefeurig.cymru

- Newyddion diweddaraf
- Hanes a hen luniau
- Cyngor Cymuned
- Mudiadau
- Y Tincer

Gwefan Trefeurig Website   Trefeurig8

whhowells@gmail.com






GWE Cambrian WEB

Gwefannau Gwych o Gymru

Creu Gwefannau

Marchnata Digidol

Pecynnau Gofal Gwefan

a llawer mwy!

*Gwasanaeth Gymraeg*

Cysylltwch Heddiw

info@cambrianweb.com

01970 623 906


# LLE MAE NHW NAWR?

**Anne Christine Parker – Penrhyn-coch a Phen-llwyn**

Cyfarfyddiad annisgwyl iawn yn Aberystwyth ym mis Mai ddaeth â mi i gysylltiad unwaith eto ag un o'm ffrindiau gorau yn Ysgol Gynradd Pen-llwyn, sef Anne Parker. Wedi treulio cyfnod yn byw yng Nghapel Bangor, symudodd Anne, ei rhieni a'i chwaer, Marit, i Gwm Pennant ym Mhenrhyn-coch. Mae'r teulu wedi gadael Penrhyn-coch ers tro bellach. Roedd ei thad yn filfeddyg ac yn gweithio ar Y Buarth yn Aberystwyth ac roedd ei mam yn weithgar iawn gyda'r Brownies yn Aberystwyth.

Tra oedd Anne yn Ysgol Pen-llwyn, roedd ganddi ddidordeb mawr mewn Cerddoriaeth, Celf ac ysgrifennu storïau ac mae'r diddordebau hyn a feithrinwyd yn ystod ei phlentyndod, wedi parhau i chwarae rhan bwysig yn ei bywyd. Mae hi hefyd yn ddiolchgar iddi gael addysg ddwyieithog ac yn teimlo bod y ffaith iddi ddysgu Cymraeg yn yr ysgol gynradd wedi bod o gymorth iddi wrth ymdopi ag ieithoedd eraill pan oedd yn oedolyn.

Gadawodd Anne Ysgol Pen-llwyn ym mis Gorffennaf 1974 a mynd i Ysgol Pen-glais. Oddi yno aeth i Brifysgol Nottingham, lle'r astudiodd Swoleg. Wedi graddio, penderfynodd mai Cerddoriaeth oedd yn mynd â'i bryd, ac aeth i Middlesex i astudio Celfyddydau Perfformio. I'r sawl sy'n ei chofio yn Ysgol Pen-llwyn, nid yw hyn yn syndod, gan mai ei huchelgais bryd hynny oedd bod yn ffliwtydd proffesiynol. Yn ddiweddarach, bu'n aelod o Gerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru. Ers peth amser bellach, mae wedi gwireddu'r uchelgais honno ac wedi treulio blynyddoedd lawer yn perfformio ar y ffliwt a'r sacsoffon.

Mae ei chwaeth gerddorol yn amrywiol iawn ac mae wedi bod yn aelod o nifer o grwpiau a bandiau e.e. Limpopo Grove (grŵp sy'n cyfuno Cerddoriaeth Affricanaidd ac Ewropeaidd), Tanglefoot (band sy'n chwarae cerddoriaeth ar gyfer dawnsio gwerin) ac Anwen (triawd sy'n cynnwys telyn Geltaidd, tabla a ffliwt) a P'jam (pedwarawd jazz). Ychydig cyn y pandemig, sefydlodd fand o'r enw 'The Annie Parker Collective' sy'n chwarae cyfuniad o gerddoriaeth Geltaidd, Affricanaidd, jazz a gwerin. Mae Cerddoriaeth wedi rhoi cyfleoedd i Anne grwydro'r byd, er enghraifft bu'n teithio yng Ngwlad Thai gyda band reggae a hefyd yn canu'r ffliwt mewn arddangosfa Gelf yn Ne Ffrainc.





Mae Anne yn athrawes ffliwt a sacsoffon hefyd ac ymysg ei disgyblion, mae nifer o blant ag awtistiaeth ac anghenion dysgu ychwanegol. Yn sgîl y pandemig, bu'n cynnig cymorth i oeodolion i oresgyn eu hofnau a'u hannog i wneud gwaith byrfyfyr.

Fel y gwyddom, roedd cyfnod y pandemig yn gyfnod heriol iawn i berfformwyr a cherddorion ond trodd Anne yr argyfwng yn gyfle i arallgyfeirio a rhoddodd ei sylw i un o'i diddordebau eraill, sef Celf. Pan oedd Anne yn ei hugeiniau, bu'n *au pair* yn y Swistir i'r arlunydd enwog, Christine Aymon. Dylanwadodd Christine Aymon yn fawr arni a bu'n ysbrydoliaeth iddi. Yn ystod y pandemig, gwelodd Anne y cyfle i fynd ati o ddifrif i fwrw ati i greu gweithiau Celf. Trodd un o ystafelloedd ei chartref yn Henley yn stiwdio a bu wrthi'n ddyfal yn creu. Arweiniodd y cyfnod creadigol hwn at arddangosfa yn Oriel yr Hen Orsaf Dân yn Henley. Bu erthygl am Anne yn y papur lleol - *The Henley Standard* - ac yn yr erthygl honno mae'n sôn am ei phlentyndod yng Ngorllewin Cymru.

Er ei bod yn byw ar lannau'r Tafwys ers dros ugain mlynedd, mae Anne yn dal i fwynhau ymweld â Chymru. Mae'n ymweld yn weddol gyson â Thal-y-llyn ac mae'n dal i gofio'n annwyl iawn am ei phlentyndod ym Mhenrhyn-coch ac yn Ysgol Pen-llwyn. Wedi bwlch o bron i ddeugain mlynedd, roedd hi mor braf gweld Anne unwaith eto a chael y cyfle i hel atgofion am ein hamser yn Ysgol Pen-llwyn.

**Iona Davies**




Rhai o blant Penrhyn-coch a Bow Street fu yn cymryd rhan o dan 6, 8 a 10



Gari Lewis yn cyflwyno tlws am y chwaraewr gorau dan 16 i Connor Robinson, Penrhyn-coch





Sonny Forbes o Ddolffiniaid Ystwyth, chwaraewr gorau dan 12

**R.J Edwards a'i Fab**
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch

Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mán

01970 820149
07980 687475

Cymunedau Ceredigion - rhowch groeso i Gymru gyfan!

rhubannau
bwganod brain CELF
PALLETS baneri
MURIAU MAWR
bynting cartre
cerbydau GWEHYDDU
TABLOS posteri
arwyddion LLIW

Penwythnos yr harddu:
1-3 Gorffennaf

EISTEDDFOD Ceredigion 2022




RHYD-Y-PENNAU

COGINIO CARTREF
CHWARAEON BYW . COFFI
01970 867 888

# Y Borth

**Ennill gwobr**
Llongyfarchiadau i Mared Emyr am ddod yn ail yn yr unawd offerynnol 19-25 oed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Ninbych.

**Gwellhad buan**
Dymunwn adferiad iechyd buan i Mike Pugh, Tafarn y Friendship, wedi cyfnod yn Ysbytai Treforus a Bronglais.

**Pen blwyddi arbennig**
Llongyfarchiadau i Alun Jenkins, Golwg Enlli, ar ddathlu pen blwydd arbennig canol y mis.

Llongyfarchiadau a pen blwydd hapus hefyd i Heulwen Lewis, Penywern, a fu'n dathlu ei phen blwydd yn 80 ddechrau'r mis.

**Gŵyl Barcutiaid y Borth**
Roedd rhwng 40–50 o farcutiaid o bob lliw a llun yn hedfan uwchlaw traeth y Borth ar nos Wener 3 Mehefin fel rhan o Ŵyl Barcutiaid cyntaf y pentref. Trefnwyd y digwyddiad gan Grŵp Amnest y Borth, ac fe godwyd dros £150 at yr achos. Dywedodd y trefnydd, Jenny Williamson, ei bod yn hapus iawn â'r ymateb.


"Y nod oedd annog cynifer o bobl a phosib i ddod draw a chael hwyl ar y traeth. Roedd gweld cymaint o deuluoedd a ffrindiau o bob oed yn mwynhau'r olygfa liwgar, hwyliog yn bleser pur.

"Hon oedd yr ŵyl gyntaf o'i bath i ni ei chynnal, ac roedden ni'n disgwyl cefnogaeth gan ychydig o ffrindiau a chymdogion yn unig. Ond mae'n amlwg fod y syniad wedi dal dychymyg a daeth nifer o ymwelwyr i ymuno yn yr hwyl. Roedd y tywydd braf a'r Ŵyl Banc hefyd wedi helpu."

Dywedodd aelod arall o Grŵp Amnest y Borth, Ruth Edwards: "Cawsom amrywiaeth eang o farcutiaid ar y diwrnod. Roedd rhai wedi gwneud eu barcutiaid eu hunain, roedd gan eraill farcutiaid anferthol ar ffurf creaduriaid y môr ac adar oedd yn llenwi'r awyr. Daeth nifer o bobl i wylio'r gweithgaredd hefyd. Roedd yn wledd i'r llygad."

Mae Grŵp Amnest y Borth yn cynnal cyfarfodydd drwy'r flwyddyn. Ar Ŵyl San Steffan, ers sawl blwyddyn, maen nhw wedi bod yn trefnu digwyddiad codi arian ar gyfer pobl sydd am fynd am nofiad cyflym yn y môr ond dyma'r tro cyntaf iddyn nhw drefnu Gŵyl Barcutiaid. Y gobaith nawr yw y bydd yr ŵyl yn dod yn ddigwyddiad blynyddol.

Am fanylion pellach am y Grŵp, gweler eu tudalen Facebook www.facebook.com/amnestyborth.





**Clwb Rhwyfo**
Daeth dros 20 o bobl ynghyd ar gyfer sesiwn arbennig a drefnwyd gan Glwb Rhwyfo'r Borth ar ddydd Sul 12 Mehefin.

Y nod oedd rhannu gwybodaeth am y clwb a rhoi cyfle i bobl leol roi cynnig ar rwyfo un o gychod hir y clwb. Yn anffodus, roedd y môr ar y diwrnod yn rhy arw i ganiatáu rhwyfo'n ddiogel ond bydd cyfle eto yn ystod yr wythnosau nesaf i'r rheiny sydd â diddordeb.


Sefydlwyd y clwb yn 2000 ac erbyn hyn mae ganddo dros 25 o aelodau sy'n cwrdd yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.

Dywedodd Cadeirydd y Clwb Rhwyfo, Dave Reynolds: "Aethom ati i drefnu'r digwyddiad hwn er mwyn denu aelodau newydd. Rydym yn treulio amser yn hyfforddi unrhyw un newydd sy'n dod atom ni, ac yn gobeithio y byddan nhw'n mynd ymlaen i fwynhau'r profiad o fod yn rhan o dîm ac o fod allan ar y môr."

Mae gan y clwb ddau gwch hir ac mae'r aelodau wedi cystadlu mewn sawl digwyddiad, gan gynnwys yr Her Geltaidd 96-milltir o hyd rhwng Aberystwyth ac Arklow yn Iwerddon.

Llun gan Chris Denny o'r Borth.





## Priodas yn y pentref

Llongyfarchiadau mawr i Siân Jones ac Elwyn Edwards ar eu priodas ddechrau Mehefin. Mae Siân yn ferch i Bryn a Liz Jones sy'n byw yn Ffordd y Fulfran. Mae hi ac Elwyn wedi ymgartrefu ym Mhenrhyn-coch.

# Galwad am Wirfoddolwyr

Mae Hwb Cymunedol y Borth yn chwilio am ymddiriedolwyr newydd. Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn rhan o'u sefydliad, cyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau a helpu i ddarparu gwasanaethau i'r gymuned, cysylltwch â: helen@borthfamilycentre.co.uk neu lisa@borthfamilycentre.co.uk. Rôl wirfoddol yw hon gydag ymrwymiad o bedwar cyfarfod llawn o'r bwrdd y flwyddyn.

Mae'r Hwb Cymunedol hefyd yn chwilio am wirfoddolwyr i yrru'r bws mini sy'n cael ei fenthyg gan Ddolen Teifi. Gall yr Hwb drefnu hyfforddiant MIDAS yn rhad ac am ddim o'r sawl sydd â diddordeb. Mae'r bws mini eisoes wedi bod ar daith i Ganolfan Bywyd Gwyllt Dyfi ger Machynlleth i weld cywion newydd gweilch y pysgod, ac i Ganolfan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Llanerchaeron. Mae taith arall i weld gweilch y pysgod yn cael ei threfnu ar gyfer 24 Mehefin. Os hoffech ymuno, e-bostiwch lisa@borthfamilycentre.org.

Yn ogystal, mae angen arweinwyr ar gyfer y teithiau Cerdded Er Lles sy'n cael eu cynnal bob dydd Gwener. Yn dilyn y daith ar ddydd Gwener 27 Mai, daeth y cerddwyr ac eraill at ei gilydd yn yr Hwb ar gyfer cinio arbennig i ddathlu'r Jiwbilî.





**Achubwyr Bywyd y Borth**

Mae'r gwasanaeth achub bywyd sy'n cael ei drefnu'n flynyddol gan yr RNLI wedi ailgychwyn. Mae tîm bach o swyddogion bellach ar ddyletswydd ar y traeth ger Canolfan y Bad Achub bob dydd rhwng 10yb a 6yh tan 4 Medi. Maen nhw'n annog plant ac oedolion i nofio rhwng y baneri coch a melyn.

Maen nhw hefyd yn gallu trefnu bod ymwelwyr â'r traeth yn gallu benthyg cadair olwyn arbennig, sydd wedi'i haddasu'n arbennig ar gyfer mynd dros y tywod a'r cerrig. Prynwyd y gadair olwyn bwrpasol gan Gyngor Ceredigion, ac mae un yn cael ei chadw yn y Borth yn dilyn cais gan y Cyngor Cymuned lleol.

**Eisteddfod Genedlaethol**

Mae Cyngor Cymuned y Borth wedi rhoi cyfraniad o £165.50 tuag at gronfa pwyllgor apêl y pentref sydd wedi bod yn codi arian at Eisteddfod Ceredigion yn Nhregaron ers 2019. Er gwaetha'r pandemig, fe lwyddwyd i gyrraedd y nod o godi £5,000 a chodi cyfanswm o £5,047.23. Daeth cyfraniad diweddar hefyd o £47.23 a gasglwyd ym mlwch elusen Caffi Cletwr. Diolch i bawb am eu cefnogaeth ac edrychwn ymlaen at brifwyl lwyddiannus ym mis Awst.

**Seren y Môr**

Dywed trefnwyr Seren y Môr / Star of the Sea eu bod wrth eu bodd â'r ymateb i ddigwyddiadau diweddar yn y ganolfan gelfyddydau, yn cynnwys noson yng nghwmni Truckstop Honeymoon a Querkus Burlesque ar 17 Mehefin.

Andrew Gordon, cerddor o'r Alban, fydd yn perfformio yno nesaf, ynghyd â grŵp dawnsio twmpath Badger Set am 6yh nos Sadwrn 2 Gorffennaf. Hefyd ar y rhaglen amrywiol ar gyfer y misoedd nesaf mae gig ar 13 Awst gyda Solana, band o bump o gerddorion a ffurfiwyd yn Valencia, Sbaen; noson gyda Ceitidh Mac a Kate Doubleday (cerddor o'r Borth) ar 2 Medi; noson o ffilm, cerddoriaeth a'r cyfarwydd ar 4 Medi gyda lleol Peter Stevenson, Lauren Everrett, Owen Shiers, Gwilym Morris ac eraill, ac Old Baby Mackerel ar 24 Medi.

"Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth hyd yma," meddai Cathy Piquemal o'r ganolfan. "Os am ganfod mwy neu archebu tocyn ar gyfer un o'n digwyddiadau, ewch i'n tudalen Facebook: www.facebook.com/StaroftheSeaBorth."

**Pen blwydd Hapus**

Cynhaliwyd parti arbennig yng Nghlwb Golff y Borth ac Ynys-las i ddathlu pen-blwydd Lynda Evans yn 80 oed. Lynda yw Is-gapten y clwb eleni ac mae hi'n edrych ymlaen at fod yn Gapten y flwyddyn nesaf. Fel rhan o'i dathliadau pen-blwydd, bu ar daith gyda'i theulu i Awstralia ac ar wyliau chwarae golff i Sbaen gyda chriw o ferched y clwb.



**Dyweddïad**

Llongyfarchiadau mawr i Stuart Hughes a Daniela Costa ar eu dyweddïad ar 9 Mai. Mae Stuart yn fab i'r Cynghorydd Sir Hugh Hughes a Dr Andrea Hughes sy'n byw yn Ffordd y Fulfran. Mae Stuart a Daniela, sy'n dod o Lisbon, yn cwblhau doethuriaethau yn Ysgol Feddygol Caerdydd ac yn bwriadu priodi'r flwyddyn nesaf.



# Clwb Golff y Borth ac Ynys-las

**Adran y Menywod**
Dathlwyd Jiwbilî'r Frenhines gyda chystadleuaeth timau o dri dros 9 twll. Yr enillwyr haeddiannol oedd Lynda Evans (Is-gapten), Andrea Evans a Doreen Jones gyda 55 pwynt. Yn dilyn y gystadleuaeth, cafwyd te ysblennydd wedi ei baratoi gan Susan Lund gyda chefnogaeth Lynda Evans ac Anna Hubbard.

**Adran y Dynion**
**Ymweliad â'r Ynys Werdd**
Aeth 11 o ddynion o Glwb Y Borth ac Ynys-las draw i Iwerddon i chwarae yng nghystadleuaeth y Cwpan Celtaidd. Bu cysylltiad agos ers blynyddoedd rhwng Clwb Woodenbridge a'r Borth gydag ymweliadau am yn ail flwyddyn i'r Borth ac i Woodenbridge. Cafwyd croeso arbennig a ddigon o craic gyda thîm Woodenbridge yn ennill y dydd o dan arweinyddiaeth eu capten Connor Brennan.

**Cwpan Petterson**
Stephen Lucas 38 pwynt yn ennill ar y 9 twll olaf
Nick Downing 38 pwynt
Brian Middleton 38 pwynt

**Cwpan Cecil Wright**
Peter Basnett 38 pwynt
Stephen Evans 35pwynt.

*Trefnwyr Angladdau*
***C T Evans***
Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.
**01970 820013**
*gwyn@ct-evans.co.uk*
**Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS**

# Enwau lleoedd
## Angharad Fychan

Pentref bychan o oddeutu dwsin o dai yw *Cwmerfyn*, wedi ei leoli rhyw bedair milltir i'r dwyrain o Benrhyn-coch, ond tebyg i'r enw gael ei drosglwyddo iddo oddi wrth fferm o'r un enw yn is i lawr y cwm. Ceir tystiolaeth hanesyddol o fodolaeth *Cwmerfyn Fach* a *Chwmerfyn Ganol* hefyd ar un adeg, er bod y rheini wedi hen ddiflannu bellach.



Gellir olrhain yr enw yn ôl i'r unfed ganrif ar bymtheg lle mae'n digwydd mewn dogfennau yn perthyn i Stad Gogerddan yn y ffurfiau *Tythyn Blaen Cwm Ervyn* (GAB2/8/1; 1557-97) a *Com Ervin* (GAB2/1/1; 1563-67).
Er bod rhai wedi dehongli'r ail elfen fel *merfyn* (fel y profa'r enw *Merfyn House* am dŷ yng nghanol y pentref) *erfyn* sydd yma mewn gwirionedd, ac ymddengys mai enw'r afon ydoedd yn wreiddiol. Dyna oedd hi i Lewis Morris, ond mae'n amlwg i'w hystyr beri cryn ddryswch iddo fel y tystia mewn llythyr yn 1755:

> Just received letters from Galltvadog, &c., all well, and Cwmervin (nid maip) prospers. Ervin is ye name of ye river that runs cross ye vein, but I dont know what ye meaning of ye word is no more than Symlog, Rheidiol, Peithyll, Ystwyth, Leri, Wyre, Elerch; the names of other rivers in this neighbourhood, strange sounds! However, my chief delight now is in Cwmervin, but I am not certain but it is *Erfyn*; *Cleddau* or *Cleddyf* is ye name of a river, and so is *Gwain*, why not Erfyn?
> *Morris Letters* (gol. J. H. Davies; 1907) i. 362-3.

Roedd yn bendant o'r farn nad *erfyn* yn yr ystyr 'maip' oedd yma felly, ond dyfalai bod yr enw'n perthyn i ddosbarth o afonydd a nodweddid gan eu tuedd i dorri i mewn i'r tirlun fel arf.

Serch hynny, awgrymodd R. J. Thomas (*Enwau Afonydd a Nentydd Cymru*, 1938, t.205) mai'r enw personol *Erfin* sydd yma. Digwydd hwnnw yn Llyfr Efengylau Sant Chad yn yr wythfed ganrif.

Rhaid bod enw'r afon a'r cwm yn cael eu harfer yn y gorffennol am ardal llawer helaethach na heddiw, gan fod map Lewis Morris yn [1744] yn nodi bod *Cwm Ervin mill* yn sefyll ar dir Ty'ngelli, islaw Pen-bont Rhydybeddau. Mae'n werth cofio nad ymddangosodd yr enw *Seilo* am yr afon o Ben-bont i lawr hyd ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.




*Lewis Morris: A plan of the Manor of Perveth (http://hdl.handle.net/10107/1445616) trwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru*

Paratowyd dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
**www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru**

# Aber-ffrwd a Chwmrheidol

**Genedigaeth (Cywiriad – enw merch a chartref)**
Llongyfarchiadau i David Huw ac Angharad ar enedigaeth eu merch fach Eiry Fflur ar Ebrill 8, wyres fach i Dick a Beryl, Troedrhiwceir ac i Stan a Joanna Spence-Wilson, Aber-ffrwd Isaf.

**Capel Llwyn-y-groes**
Mae Capel Llwyn-y-groes wedi cau ei ddrysau erbyn hyn a phenderfynwyd rhoi yr organ i wasanaeth Eglwys Ysbyty Cynfyn. Dydd Sul olaf ym mis Mai cawsom wahoddiad gan aelodau yr Eglwys i wasanaeth cysegru yr organ. Cawsom groeso cynnes iawn gan Delyth Morris Jones ac mi 'roedd y gwasanaeth yng ngofal y Canon Andrew Loat. Mwynhawyd lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan aelodau'r Eglwys. Cawsom gwmni Meinr a Dwynwen a hefyd Dei a Nancy Ty Poeth teulu y diweddar Gwen Morgan, un a fu yn ffyddlon iawn yn y Capel. Bu Dwynwen yn organyddes yn Llwyn-y-groes am flynyddoedd. Hyfryd iawn oedd clywed sain yr organ unwaith eto.

Dyma lun o aelodau a ffrindiau Capel Llwyn-y-groes yn trosglwyddo yr organ i wasanaeth Eglwys Ysbyty Cynfyn gyda Amanda Burton organyddes yr Eglwys

**Urdd y Benywod**
Oherwydd nad yw Canolfan Groeso Statkraft ar gael i drigolion yr ardal yn awr penderfynodd Llenni, Patrick a Myfi Penffrwd wahodd y gymuned i ddathlu y Jiwbili yn eu gardd ond oherwydd y glaw mi wnaeth Alice a Louise, Troedrhiwsebon, agor Capel Bethel. Cafwyd prynhawn dymunol gyda llawer iawn o newydd ddyfodiaid i'r ardal wedi ymuno. Mi 'roedd yn gyfle da i gymdeithasu ac i ddod i adnabod ei cymdogion yn well. Diolch i deulu Penffrwd a hefyd Alice a Louise am brynhawn pleserus. Diolch hefyd i bawb a wnaeth gyfrannu bwyd tuag at y wledd a gafwyd. Mae yn golled fawr i'r ardal fod y Ganolfan Groeso ar gau; mae Urdd y Benywod yn gweld ei eisiau yn fawr.

**Sioe Aberystwyth**
Llongyfarchiadau i bawb o'r ardal a gafodd wobrwyon yn Sioe Aberystwyth ac yn enwedig i blant Ysgol Pen-llwyn am eu gwaith hyfryd yn y Babell. Bu y plant hefyd yn dysgu sut i baratoi Delyth y ddafad ar gyfer ei dangos ac mi gawsant dipyn o lwyddiant ac wedi cael profiad hyfryd iawn hefyd.



**Trigolion yr ardal yn mwynhau gyda John Alderslade, Tan cnwch yn diddanu.**



# CFFI Tal-y-bont

I ddechrau mis Mai y cafwyd noson cynhenus yn gwneud arwydd i hysbysebu Rali C.Ff.I Llanwenog. Diolch i Ruth Jên am ei holl gymorth wrth i'r arwydd ddod yn drydydd yn y sir. Cafwyd noson hyfforddi cneifio ar fferm Tynant ar y pedwerydd o Fai, a noson odidog yn chwarae rownderi wrth baratoi i ddydd Chwaraeon Y Sir ar Fai'r seithfed yn Llanbedr Pont Steffan. Cafwyd diwrnod gwerth chweil yno, wrth i dîm C.Ff.I Tal-y-bont ddod yn ail wrth golli 8-5 yn y rownd derfynol. Llongyfarchiadau bawb!

Paratoi ar gyfer y Rali oedd blaenoriaeth y clwb yr wythnosau'n arwain i fyny at ddydd Sadwrn y pedwerydd o Fehefin i'r Rali flynyddol oedd ar Fferm Fronheulog, Llanwenog. Cafwyd cystadlu brwd gan y clwb ymhob maes. Yn yr wythnos yn arwain at y Rali, buodd tim llwyddiannus yn barnu stoc- da iawn i Ynyr, Bedwyr, Richard a Sara! Daeth y tim yn drydydd, ac enillwyd y tlws am y marciau uchaf yn y barnu stoc. Cafwyd llwyddiant cynhenus hefyd wrth i Teleri Morgan ddod yn drydydd efo'r gystadleuaeth gosod blodau, ac i Eleias a Tomos am eu sgiliau crefftus, i'r criw Tablo, barnu merlod ac i bawb wnaeth ddangos Tal-y-bont ar eu gorau! Cafwyd diwrnod braf yn Llanwenog. Am hyfryd cael bod yng nghwmni'n gilydd eto! Roedd yr haul yn gwenu, a'r lle yn llawn wynebau cyfarwydd. Diolch i'r arweinwyr, aelodau a ffrindiau'r clwb am eu holl gymorth llesol, ystyriol wrth ein paratoi i'r holl gystadlu. Llongyfarchiadau gwresog i Glwb Felin-fach am ddod yn fuddugol eleni-edrychwn ymlaen i'r rali yno y flwyddyn nesaf.

Wrth edrych ymlaen i'r haf, bydd y clwb yn cynnal nosweithiau llawn hwyl. Dewch yn llu aelodau hen a newydd!







# Penrhyn-coch

**Suliau Horeb**
*Mehefin*
26 2.30 Peter Thomas

*Gorffennaf*
3 2.30 Peter Thomas
10 10.30 Sion Meredith
17 10.30 Wyn Morris
24 2.30 Judith Morris
31 Oedfa bore Pafiliwn Steddfod Tregaron

*Awst* – ymuno ag eglwysi'r dref

*Medi*
11 2.30 Judith Morris

**Cymorth Cristnogol**
Cyfanswm casgliad Penrhyn-coch eleni yw £516. Hoffai'r Trefnydd, Ceris Gruffudd, a'r Trysorydd, Eleri James, ddiolch i bawb a gyfrannodd ar-lein a fel arall er sicrhau fod casgliad yn digwydd yn y pentref eleni eto.

**Swydd newydd**
Dymuniadau gorau i Gwenllian Mair, Ger-y-cwm, wrth iddi adael ei swydd gyda Phlaid Cymru i ymuno a Adran Adnoddau Dynol LLGC.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Dr Rhiannon Ifans a'r teulu, Rhandir, ar farwolaeth mam Rhiannon yn Ysbyty Gwynedd ar 12 Mai.

â Eleri a'r a Dr Aeronwy James, Cae Mawr, ar farwolaeth merch a chwaer ym Mhontypridd – Cerys Webber - ar 18 Mai. Cynhaliwyd yr angladd ym Mhontypridd ar Fehefin 14.

â Sioned, a Rob Mills, Osian a Rhys ar farwolaeth mam-gu Sioned yn Aberystwyth/ Llanbadarn.

â Dwynwen Huws, Glan Seilo a Gwydion ab Ifan, Y Felin a'u teuluoedd ar farwolaeth mam Dwynwen a Gwydion – Myfanwy Huws , Pontrhydfendigaid.

â theulu Bob Hughes Jones (Bob Boots), Ger-y-llan a fu farw ar fore Sul, 22 Mai. Bu Bob yn drysorydd ffyddlon Eglwys Sant Ioan o 2012 hyd iddo drosglwyddo'r awenau ar ddiwedd 2020. Gwerthfawrogir ei wasanaeth i'r Eglwys dros yr holl flynyddoedd

**Merched y Wawr**
Noson o ymlacio gafwyd nos Iau y nawfed o Fehefin, a pryd o fwyd blasus iawn yn y Wildfowler. Diolch o galon i Sharon am drefnu, ac am ei holl waith dros y blynyddoedd diwethaf. A phob lwc i'r criw fydd yn parhau a'r gwaith. Bydd sesiynau cerdded a chlonc yn cael eu cynnal dros yr wythnosau nesaf. - cwrdd am 6.00 y tu allan i'r Siop, Penrhyn-coch:
23 Mehefin
7 Gorffennaf
21 Gorffennaf
11 Awst
25 Awst



## Pen blwydd arbennig

Pen blwydd hapus yn 90 ar Fehefin 19ed i fam a Mam-gu arbennig- sef Mairwen Jones Penrhyncoch. Cariad Mawr oddi wrth Andy a Debbie, Carina, Aaron a Mel ag Ashley.

**Pen blwydd arbennig**
Llongyfarchiadau i Dr Aeronwy James, Cae Mawr, ar ei phen blwydd yn 90 dydd Sadwrn 11 Mehefin. Anfonwn ein cofion ati.

**Eglwys St Ioan**
*Cwis 'In and Out'*
Diolch i bawb a gymerodd ran yn y cwis a lansiwyd dros ŵyl y Pasg gan Eglwys St Ioan, Yr enillwyr llwyddiannus oedd Mr a Mrs Scogins o Swydd Derby. Mi fydd yr atebion cywir yn cael eu harddangos yn yr Eglwys, yn y siop a garej Tŷ Mawr, (cysylltwch â Mrs Edwina Davies am gopi). Aeth yr elw tuag at gynnal a chadw'r Eglwys a Neuadd yr Eglwys.



**Diolch i'r criw o wirfoddolwyr fu yn cynorthwyo i glirio y cae chwarae ym Mhnenrhyn-coch.**



**Gardd gymunedol**
Y newydd ddyfodiad yn yr ardd gymunedol diolch i gwmni R.J. Edwards a'i Fab, diolch yn bennaf i Mr Gareth Lewis am ei grefftwaith. Dyma sied newydd i'r gwirfoddolwyr gadw offer i weithio yn yr ardd, megis potiau blodau, trywel, rhofiau, rhaca, can dyfrio ac ati.
Yn y llun: Myfi, Rob ag Ifan (teulu Edwards), Elsie, Morris a Delyth, rhai o'r gwirfoddolwyr.





# Priodasau

Ar ddydd Sadwrn 21ain o Fai, ar ôl dwy flynedd o baratoi a tharfiad oherwydd Covid, priodwyd Rachael Claire Davies, merch Emyr Charles Davies MBE (Chas) ac Alayne Carree-Davies o Penrhyn-coch â Abhimanyu Bose, mab Dr Dipankar Bose a Dr Anjali Bose o Nuneaton yn Eglwys Gadeiriol Sant Paul, Llundain a gwledd briodas i ddilyn yng Ngwesty'r Dilly, Syrcas Piccadilly. Treuliodd y pâr hapus eu mis mêl yn Bali cyn dychwelyd i'w cartref yn Stratford upon Avon. Mae Rachael yn Gyfrieithiwr Eiriolwr (Solicitor Advocate) sydd hefyd yn gymwysiedig i gario allan gwaith bargyfreithiwr, ac mae Abhimanyu (Abhi) yn gweithio i Brifysgol Coventry mewn Masnacheiddio Arloesi (Innovations Commercialisations). Roeddent eisioes wedi cael priodas Hindwaidd yng Ngwesty Nanteos, Rhydyfelin mis Hydref diwethaf.





**Beth a Dylan ar ddydd eu priodas - Mai 28 yn Horeb, Penrhyn-coch**

**Cyhoeddi campwaith**

Yn ystod Cynhadledd Llawysgrifau Cymru c.800–c.1800 ar 20 - 22 Mehefin yn Aberystwyth, cyhoeddir ffrwyth llafur oes Daniel Huws, Maes Seilo, ar y llawysgrifau Cymreig, *A Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes c.800–c.1800*, gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.





Mae'r Gwaith mewn tair cyfrol – mae'r gyfrol gyntaf yn Repertory yn cynnwys disgrifiadau cryno o tua 3,300 o lawysgrifau Cymreig a luniwyd rhwng c.800 a c.1800, y rhai a ysgrifennwyd yn Gymraeg a'r rhai a ysgrifennwyd mewn ieithoedd eraill sy'n ymwneud â llenyddiaeth a dysg Gymreig. Yng nghyfrol II, ceir gwybodaeth fywgraffyddol am tua 1,500 o ysgrifwyr, gan gynnwys rhai anhysbys y mae eu llaw yn digwydd mewn dwy neu fwy o lawysgrifau, ynghyd â mynegeion cynhwysfawr (tua 250tt.) i enwau priod, enwau lleoedd, pynciau a thestunau yng nghyfrol I, a mynegai cronolegol o'r llawysgrifau hyd 1580. Yng nghyfrol III, ceir rhyw 900 delwedd sy'n cynnig enghreifftiau o amrywiol lawiau'r 600 ysgrifwr pwysicaf yng nghyfrol II. Am ragor o wybodaeth, ynghyd â thudalennau enghreifftiol o bob cyfrol, gellir lawrlwytho copi o brosbectws y Repertory.

Yn ol Dr Ceridwen Lloyd Morgan, Cyn-Bennaeth Llawysgrifau a Delweddau Gweledol, Llyfrgell Genedlaethol Cymru "Heb unrhyw amheuaeth, y Repertory yw'r cyfraniad pwysicaf ym maes llawysgrifau Cymreig ers gwell na chanrif. Bydd y gwaith awdurdodol, anhepgor hwn yn gweddnewid pob agwedd ar ymchwil i'r traddodiad ysgrifenedig yng Nghymru."

Yr un mis bydd Dr Daniel Huws yn dathlu ei ben blwydd yn 90 oed ar Fehefin 28– dymuniadau gorau iddo am ben blwydd hapus iawn.



**Elis Jenkins o Ysgol Penweddig ddaeth yn drydydd yn Eisteddfod yr Urdd am ffotograff wedi ei addasu bl 7 8 a 9**





**Cafodd Sian a Gwenan Jenkins dipyn o lwyddiant yng nghystadlaethau ffotograffiaeth Eisteddfod yr Urdd - dyma nhw yn dathlu yn y Babell Celf a Chrefft! Llongyfarchiadau!**
**Cafodd Sian 2il am Ffotograff wedi'i addasu Bl 10 a dan 19 oed. Cafodd Gwenan 1af am Ffotograff wedi'i addasu Bl10 a dan 19 oed a 3ydd am gyfres o luniau Du a Gwyn Bl 10 a dan 19 oed.**

# Bow Street

**Suliau Capel y Garn**
*Mehefin*
26 Lyndon Lloyd

*Gorffennaf*
3 I'w drefnu.
10 Y Parch. R. Watcyn James.
17 Y Parch. R. Watcyn James.
24 Oedfa'r Ofalaeth (Capel Seion)
31 ----------- (Oedfa'r Pafiliwn Eisteddfod)

*Awst*
7 Y Parch R. Watcyn James.
14 Cyd-addoli yn Noddfa (Y Parch. Richard Lewis)
21 Beti Griffiths
28 Lyndon Lloyd.

*Medi*
4 Oedfa'r Ofalaeth (Pen-llwyn)
11 Y Parch. R. Watcyn James
18 Y Parch. R. Watcyn James
25 I'w drefnu.

**Capel y Garn ym mis Mai**
Gan fod Sul cyntaf mis Mai yn disgyn ar Galan Mai, cafwyd gwasanaeth ar y thema 'Y Gwanwyn, Dadebru a Gobaith' y bore hwnnw, wedi ei drefnu gan Alan Wyn Jones a'i gyflwyno gan aelodau. Yn addas iawn dyma'r tro cyntaf ers amser hir iawn i'r gynulleidfa gael cyfle i rannu sgwrs dros baned ar ôl y gwasanaeth, a diolch i Nans Morgan a Mair Jenkins am weini hwnnw. Cafwyd gwasanaethau dan arweiniad ein Gweinidog yr wythnosau canlynol, yn eilio ag ymweliadau i ymuno â chynulleidfa Capel Noddfa.

## Cricedwyr ifanc

Chwaraewyr iau Aberystwyth Aadvik Khare , Bryn Williams a Iestyn Roberts yn chwarae i dim dan 12 oed Criced Gogledd Cymru ar eu hail ddiwrnod o daith o Dde Cymru yn ennill yn erbyn Gorllewin Cymri yn y ddwy gem T20. Da iawn fechgyn.






Rhai o aelodau Merched y Wawr Rhydypennau'n mwynhau cerdded llwybrau Bwlch Nantyrarian. Yn absennol o'r llun y mae Ann a Ray.

**Eisteddfod!**
Mewn cwta 5 wythnos, disgwylir y bydd tua 150,000 o bobl yn ymweld â'r Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron, a bydd nifer yn teithio drwy Bow Street ar eu ffordd yno. Dyma gyfle i ni wneud sioe iawn ohoni erbyn 30 Gorffennaf, drwy addurno'n tai a'n gerddi, yn enwedig y rhai wrth y ffordd fawr. Beth am greu arwydd 'Croeso', codi bynting o bob math, gosod poster lliwgar mewn ffenest, codi baner Draig Goch ... defnyddiwch eich dychymyg! Beth am roi cyfle i'r plant greu darn o gelf arbennig, neu wneud rhywbeth ar y cyd â'ch cymdogion?

Mae croeso i chi gysylltu ag anwenmai@hotmail.co.uk (neu'r pwyllgor apêl lleol – Medi Jones Jackson, Hawys Roberts, Meretta Griffiths a Wyn Lewis) am syniadau pellach neu gymorth. Pob lwc!

**Merched y Wawr Rhydypennau**
Mae'n gyfnod y tripiau, a braf oedd gallu trefnu un unwaith eto. Felly, pnawn Llun, 13 Mehefin, teithiodd aelodau Merched y Wawr Rhydypennau i Ganolfan Bwlch Nantyrarian ar gyfer cyfarfod olaf y tymor eleni. Trwy lwc, roedd yn ddiwrnod braf ac fe gafodd pawb hwyl yn cerdded, yn cymdeithasu a chael clonc uwchben paned.

Roedd gweld y barcutiaid yn troelli yn yr awyr wrth i amser bwydo agosáu yn wledd i'r llygad, a'u gweld yn plymio i gasglu eu cinio yn olygfa ryfeddol. Ar ddiwedd pnawn hwyliog, diolchodd Mair Lewis i swyddogion a phwyllgor 2021/2022 am eu gwaith trefnu gydol y flwyddyn.

Fel pwyllgor, carem ddiolch i bawb am greu sesiynau hwyliog er y rhwystredigaethau oedd arnom ers 2020, ac i'r aelodau am eu cefnogaeth. Byddwn yn cwrdd eto ddydd Llun, 12 Medi, ac mae croeso cynnes i aelodau – hen a newydd – a phob dymuniad da i bwyllgor 2022/2023.

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad a Geraint a Barbara Jenkins, Bryncastell, ar farwolaeth eu mab yng nghyfraith – Dyfrig Evans – Topper; gŵr Elaine.

**Ennill yn yr Urdd**
Llongyfarchiadau gwresog i Elin Pierce Williams, 3 Brynmeillion, am ennill y wobr gyntaf yn Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022 yng nghystadleuaeth barddoniaeth Blwyddyn 9. Daw'r floedd 'Hwrê!' oddi wrth Mam a Dad a'r teulu i gyd.



## Colofn **Ben Lake AS**



Er bod nifer fawr o bethau i godi calon ar hyn o bryd – llwyddiant tîm pêl-droed Cymru, adfywiad sioeau amaethyddol, eisteddfodau bach a digwyddiadau lleol ar draws y sir yn dilyn Covid, a'r edrych ymlaen tuag at yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst – mae'r argyfwng costau byw presennol yn taflu ei gysgod dros gymdeithas gyfan ar hyn o bryd.

Yn anffodus, mae effaith y cynnydd mewn biliau ynni a thanwydd yn cael effaith aruthrol ledled Cymru ac yn enwedig felly mewn ardaloedd gwledig fel Ceredigion. Mae adroddiadau'n awgrymu y gallai cymaint â 45% o aelwydydd Cymru fod mewn tlodi tanwydd yn dilyn y cynnydd diweddaraf yn y cap ar brisiau ynni.

Ymhellach at hyn, mae tua 35% o gartrefi Ceredigion heb eu cysylltu â'r prif gyflenwad nwy, ac o ganlyniad yn dibynnu ar olew i wresogi eu cartrefi. Ar gyfartaledd, maent wedi gweld cynnydd o 150% yng nghost eu archebion olew gan nad ydynt wedi'u diogelu gan y cap ar brisiau ynni.

Mae prisiau tanwydd uwch hefyd yn bygwth yr economi wledig. Anghofiwn weithiau fod prisiau cynyddol petrol a disel yn cael effaith ddifrifol ar wasanaethau cyhoeddus. Pan fydd y prisiau hynny'n cynyddu, daw'n anos cynnal llwybrau bysiau gwledig a gwasanaethau trafnidiaeth ysgol. Yn fwy pryderus efallai, mae gweithwyr hollbwysig, fel gofalwyr cymdeithasol, yn ei chael hi'n anodd fforddio gweithio. Dros yr wythnosau diwethaf rwyf wedi dadlau yn y Senedd y byddai modd cael rhywfaint o ryddhad tymor byr i'r sefyllfa enbyd hwn trwy'r cynllun rhyddhad treth ar danwydd gwledig, trwy ymestyn y cynllun (sydd eisoes mewn grym mewn ardaloedd gwledig yn Lloegr a'r Alban) i Gymru.

Fel cadeirydd y grŵp seneddol trawsbleidiol ar dlodi tanwydd, rwyf hefyd wedi bod yn annog Llywodraeth San Steffan i ystyried cynigion 'National Energy wAction' ar gyflwyno tariff cymdeithasol newydd i helpu cwsmeriaid mwyaf agored i niwed. Dylai cynnig o'r fath fynd law yn llaw ag ymdrechion i hyrwyddo cynlluniau sydd eisoes yn bodoli megis y Gronfa Cymorth Dewisol (Discretionary Assistance Fund) a'r taliad tanwydd gaeaf i bob aelwyd incwm isel. Byddai hyn oll yn mynd i'r afael â'r pwysau tymor byr sy'n deillio o brisiau ynni uwch.

Ateb tymor hir fyddai cynnydd sylweddol yn y cyllid ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni. Yn benodol, dylai Llywodraeth San Steffan gyflwyno deddfwriaeth ECO4 (y rhwymedigaeth cwmni ynni) yn ddi-oed i sicrhau bod mesurau inswleiddio'n cael eu gosod ar gyfer y cartrefi tlotaf cyn gynted â phosibl.

Yn syml iawn, mae teuluoedd a chartrefi ar draws Ceredigion angen i Llywodraeth San Steffan wneud mwy i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw presennol – yn y tymor byr a'r tymor hir.

**Genedigaethau**

Llongyfarchiadau i Sara a Sion ar enedigaeth Hanna Mai England, ddydd Gwener 20 Mai; chwaer fach i Alys; wyres i Mair England, Pant y glyn, Llandre.

Llongyfarchiadau i Gwenann ac Andrew ar enedigaeth Efa Lois ar 23 Mai; wyres i Doreen Watts Williams.

**Diolch**

Dymuna Anwen, Hywel ac Elin, 3 Brynmeillion, ddiolch o galon i bawb am eu cardiau, rhoddion a'u geiriau caredig ar adeg colli Freda Pierce, mam Anwen, ddiwedd Ebrill. Bu'r cyfan yn gymorth ac yn gysur mawr i'r teulu.



**Cylch Meithrin Rhydypennau**

**Sylfaenwyr ac arweinyddion Adran Aberystwyth yn ennill Tlws John a Ceridwen Hughes, Eisteddfod yr Urdd 2022**

Llongyfarchiadau i Helen Medi Williams a Lona Phillips dderbyniodd Dlws John a Ceridwen Hughes Uwchaled eleni. Cyflwynir y tlws yn flynyddol yn ystod wythnos Eisteddfod yr Urdd, fel gwobr am gyfraniad sylweddol i fywyd ieuenctid Cymru er cof am rieni Dewi Hughes (Bod Hywel gynt) a'i frawd Gerallt Hughes, Arthog.

Mae Helen yn athrawes yn Ysgol Rhydypennau, a nyrs yn Ysbyty Bron-glais, yw Lona. Yn ogystal â hyfforddi a chynorthwyo Aelwyd Aberystwyth, chwaraeodd y ddwy ran flaenllaw yn ei sefydlu yn 2009 er mwyn sicrhau cyfle i blant y dref a'r cyffiniau gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010 a chymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg. Adran ar gyfer plant cynradd oedd hi'n wreiddiol ond mi aeth o nerth i nerth ac ers 2013 mae ganddi hefyd adran uwchradd.

Cynhaliwyd seremoni arbennig i gyflwyno'r tlws iddynt ar Lwyfan y Cyfrwy, Maes yr Eisteddfod yn Ninbych dydd Iau, 2 Mehefin. Yma gwelir hwy yn cael eu llongyfarch gan ddau aelod o ardal y Tincer - Steffan Rhys Jones, Penrhyn-coch a Gruffydd Siôn, Llandre.

Bu'r ddau aelod yma yn perfformio fel deuawd ar ewffonia am y tro cyntaf i ddiddanu aelodau Cymdeithas Efeillio Aberystwyth-Kronberg wrth iddynt groe asawu ymwelwyr o'r Almaen am y tro cyntaf ers y cyfnodau clo.



**Ensemble Offerynnol Bl.6 ac iau Aelwyd Swydd Derby - dysgwyd gan Helen – merch Ronald a Ann Williams, Maes y Garn.**

# Capel Bangor / Pen-llwyn

**Gwellhad Buan**
Dymunwn wellhad buan i Barry Eddington, Bangor View sydd wedi treulio ychydig amser yn yr ysbyty. Da deall eich bod adref erbyn hyn a Sheila yn nyrs benigamp. Pob dymuniad da.

**Symud aelwyd**
Pleser yw croesawu Mark Evans a'r teulu i Tŷ Pen-llwyn, maent wedi dod atom o Lanbadarn. Dymuniadau gorau hefyd i Christene a fu yn byw yn Nhŷ Pen-llwyn am rai blynyddoedd ond sydd wedi symud i Lanbadarn. Hyderwn y byddwch yn hapus yn eich cartrefi newydd, Pob dymuniad da.

**Teyrnged**
Fel yr addawyd dyma deyrnged i'r diweddar annwyl Mrs. Maggie Jones, Haulfryn a fu farw ar y 29ain o Ebrill 2022 yn 96 mlwydd oed. Dyma'r deyrnged a draddodwyd ddydd ei hangladd gan y plant.

**Teyrnged i Mam**
Ganwyd Mam ar y 15fed o Awst 1925 y pumed plentyn o 13 i Enoc a Laura James. Bu'r teulu yn byw yn Pentre Rhibyn Pen-llwyn,ac yna symudasant i Bwllclai. Aeth Mam i'r ysgol yma ym Mhen-llwyn, ac yn ôl pob sôn roedd yn mwynhau'r ysgol ac wedi gwneud yn dda i'r graddau y byddai wedi medru mynychu'r ysgol uwchradd yn Aberystwyth, ond nid felly y bu. Gadawodd yr ysgol yn 14 oed ac aeth i weithio i Bwllcenawon fel morwyn fferm yng nghwmni dau o'i brodyr, Ronald a Wyndam.

Yn sicr mae gwreiddiau Mam yn ddwfn iawn yma yng Nghapel Bangor, a does dim mwy nag ambell filltir o fan ei genedigaeth, ei phlentyndod, ei gwaith a'i bywyd. Roedd yn gefnogol i bob digwyddiad yn y pentref. Roedd y Capel yn ran bwysig o'i bywyd a bu yn aelod ffyddlon ym Mhen-llwyn hyd nes i'w hiechyd fethu. Roedd Mam hefyd yn aelod brwd o Glwb Sion a Sian a Merched y Wawr.

Bu Mam yn ofalwraig am ran helaeth o'i bywyd. Ar ôl priodi, y bywyd teuluol oedd y ffocws, yn ein magu ni blant i gyd yn Haulfryn. Yn ogystal, fe ofalodd yn dyner am ei Mam ar yr aelwyd yn Haulfryn pan



Cylch Meithrin Pen-llwyn

oedd ei hiechyd yn fregus, ac yno y bu tan y diwedd. Ond wrth i ni blant dyfu a gadael y nyth, cafodd Mam swydd yn gweithio yn Ysgol Pen-llwyn gyda'i chymdoges Elizabeth Jones, Rhoslwyn. Cawsant lawer iawn o hwyl yn y cyfnod yma gyda Cookie Davies, Phyllis Morgan, a Marie Howells yn y gegin a Mr. Martin Davies yn Brifathro'r ysgol. Bu Mam hefyd am flynyddoedd yn gweithio a chadw tŷ i Mr. a Mrs. Isles yn y Llwyn, roedd wrth ei bodd yn teithio yno ar y beic bach coch.

Roedd Mam yn hoffi natur ac wrth ei bodd yn yr ardd a'r tŷ gwydr ac yn gwylio'r adar ar y bwrdd adar tu allan i ffenestr y gegin yn Haulfryn. Roedd yn gwau, darllen, coginio ac wrth ei bodd yn gwneud croeseiriau *Take a Break*. Ni hoffai fod yn segur na chwaith heb ei ffedog tra yn y tŷ. Wrth adael Haulfryn roedd yn ei dynnu i ffwrdd a'i hongian ar ddodrefnyn wrth ddrws y ffrynt a'r weithred gyntaf wrth ddychwelyd oedd rhoi'r ffedog yn ôl amdani.

Roedd y teulu yn holl bwysig i Mam ac roedd gweld y cynnydd wrth i bob un briodi Dilwyn a Delma, Geraint a Sandy, Margaret a Gerald, Heather a John a Jean a Mark yn rhoi llawer o gysur a llawenydd iddi hi a'i phriod ac eto wrth i'r wyrion bach gyrraedd. Roedd wrth ei bodd yn gofalu amdanynt ac yn falch ambell waith efallai o'i gweld yn mynd adref. Roedd 9 o wyrion, ganddi, Nia, Aled, Sion, Lowri, Louise, Joanna, Rhian, Tomos a Iestyn. Ac roedd llawer o hwyl a sbri a chwerthin ar yr aelwyd yn Haulfryn. Hoffai fynd am dro yn y car a gweld y wlad, a chael paned cyn dod adref. Wrth i'r wyrion basio eu prawf gyrru cawsai mwy o gyfleoedd i fynd am dro.

Roedd colli Dad yn sydyn yn 1996 yn ergyd drom i Mam. Er hyn roedd yn gymeriad cryf ac fe gariodd ymlaen i fyw ei bywyd. Bu fyw yn Haulfryn yn annibynnol am flynyddoedd lawer ac roedd ymweliadau ffrindiau yn bwysig iddi. Roedd hefyd yn dra diolchgar am bob cymorth oddi wrth y teulu, byddai hi a Heather yn mynd i siopa bob dydd Gwener gyda Gerald yn helpu i dorri'r gwair a'r cloddiau iddi gyda phawb yn helpu yn ôl



y galw.

Cenedlaetholwraig frwd oedd Mam "Welsh first last and always" oedd ei dywediad. S4C oedd prif sianel Haulfryn gyda popeth yn dod i stop dros gyfnod y Sioe Frenhinol a'r Eisteddfod.

Yn ystod cyfnod diwethaf ei bywyd roedd Mam wedi mynd i drwmgwsg ond wrth glywed Bryn Terfel yn canu'r anthem genedlaethol ar y chwaraewr CD wrth ei gwely, cododd ei braich er mwyn dangos ei brwdfrydedd, hyd y diwedd.

Ar ol ei phen blwydd yn 90 oed dechreuodd iechyd Mam ddirywio a symudodd i fyw at Heather a'r teulu yn Brynsiriol a mawr yw ein dyled iddynt am edrych ar ei hôl mor dda am nifer o flynyddoedd.

Ar ôl cyfnod yn yr ysbyty sylweddolwyd fod angen gofal 24 awr y dydd ar Mam a gyda chalonnau trwm bu rhaid gwneud penderfyniad i symud i gartref gofal. Yn anffodus yn fuan ar ôl symud i Abermad daeth Covid 19 a olygai nad oeddem yn cael ymweliadau cyson fel yr hoffem.

Hoffem gymryd y cyfle, fel teulu, i ddiolch i bob un aelod o'r staff yn Abermad am ei gofal am Mam. Hefyd diolch i'r gofalwyr fy yn dod i Brynsiriol, i staff Ysbyty Bron-glais a Meddygfa Ystwyth am eu cymorth dros y blynyddoedd.

Hoffem orffen y deyrnged yma gan gynnig diolch am fywyd Mam. Roedd yn berson anhygoel ym mhob ffordd ac rydym yn ddiolchgar am bob cymorth i ni gyd fel teulu. Rydym fawr yn dy ddyled a gorffwysa nawr mewn hedd.

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

Canolfan Morlan, Morfa Mawr
Aberystwyth Ceredigion
SY23 2HH
www.morlan.cymru

# Teyrnged

**I Gofio'n Annwyl am Eiddwen Davies Jones Williams**

Ganwyd Eiddwen ganrif yn ôl yn Wileirog Uchaf, Y Borth ar 25ain o Orffennaf 1921, yn ferch i Thomas Davies Jones ac Elizabeth Mary Jones, ac yn chwaer i Elwyn a Gwynfor. Mynychodd Ysgol Gynradd Rhydypennau ac yna Ysgol Breifat i Ferched - Y Cofaint - (Convent), - Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth.

Symudodd y teulu o Wileirog Uchaf i Abercwmdolau yn 1943, ac ar ôl gorffen yr ysgol, penderfynodd ddod adref i weithio ar y fferm gyda'i rhieni. Ffermydd llaeth oedd Wileirog Uchaf ac Abercwmdolau ar y pryd.

Roedd yn hoff iawn o gerddoriaeth a dechreuodd ganu'r organ yn ifanc iawn yn Eglwys Llangorwen, Yr Holl Saint, yna yn Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor, ac Eglwys Sant Mihangel yng Ngelli Aur. Câi foddhad mawr wrth wrando a chanu'r piano a'r organ, ac roedd yn gyfeilyddes ac organyddes o fri.

Byddai'n mynychu Eisteddfodau lleol gyda'i brawd Elwyn, yn mwynhau cyfeilio iddo bob amser.

Mae cofnod ohoni yn cyfeilio i'w gael mewn erthyglau papur newydd sy'n adrodd ar 'operata' a drefnwyd yn Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor gan y 'GFS' sef y "Girl Friendly Society".

Un o'i ffefrynnau cerddorol oedd Corau Meibion. Roedd yn hoff o wrando ar Radio Cymru



yn ddyddiol. Hefyd, gwyliai raglenni teledu yn ymwneud ag Amaethyddiaeth, Chwaraeon, Garddio a'r Newyddion, heb anghofio am ddarllediadau o Eisteddfodau a'r Sioe Fawr.

Byddai'n cystadlu mewn sioeau lleol yn flynyddol, a chael tipyn o lwyddiant ar hyd y blynyddoedd mewn cystadlaethau Coginio, Gosod Blodau, Gwaith Llaw a thyfu Llysiau.

Cyfarfu Eiddwen â'i gŵr Thomas Jones Williams ar drip amaethyddol yn yr Alban. Dyweddïodd Tom ag Eiddwen gan briodi ar 29ain o Fehefin 1962. Symudodd o Geredigion i Sir Gaerfyrddin, gan ymgartrefu ar Fferm Dryslwyn Fawr, Llanarthne a chafodd y ddau fywyd priodasol hapus gyda'i gilydd. Roedd yn wraig fonheddig, croesawgar a gweithgar ym mhob ffordd. Fferm laeth oedd yn Dryslwyn Fawr.

Bu'n gefn mawr i'w gŵr, ac roedd yn falch o'i lwyddiant a'r holl waith a wnaeth yn yr ardal. Llwyddiant arbennig oedd pan y gwelwyd Gelli Aur yn agor fel Coleg Amaethyddol. Roedd yn llawn balchder hefyd pan gafodd Tom ei wneud yn Ynad Heddwch a phan gyflwynwyd yr - MBE am ei wasanaeth i amaethyddiaeth ac ati.

Bu farw ei phriod ar 5ed o Chwefror 1982. Gofalodd Eiddwen amdano yn ystod ei salwch yn ofalus, yn dyner ac yn ymroddgar.

Flwyddyn yn ddiweddarach, symudodd yn ôl i Geredigion, gan ymgartrefu yn Aberaeron yn 1983.

Roedd yn aelod ffyddlon o Eglwys y Drindod, Aberaeron, ac arferai fod yn aelod o Ferched y Wawr, Cylch Aeron, Aberaeron. Roedd bob amser yn mwynhau cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau. Roedd gan Eiddwen hyfrydwch mawr o goginio amrywiaeth eang o fwydydd Cymreig. Gwnaeth Gacen Ffrwythau wedi ei harddurno'n berffaith i ddathlu pen blwydd arbennig ar gyfer Merched y Wawr, Cylch Aeron, Aberaeron.

Roedd yn hoff iawn o arddio, gan dyfu amrywiaeth eang o flodau a llysiau. Byddai wrth ei bodd gyda gwaith llaw - crosio yn arbennig. Byddai'n treulio oriau yn sicrhau bod pob dim yn gywir a thaclus. Hefyd, roedd yn mwynhau darllen amrywiaeth eang o lyfrau ac ati.

Ym mis Gorffennaf 2021 dathlodd ei phen blwydd arbennig yn 100 mlwydd oed, gan ddathlu gyda'r teulu yng Nghapel Bangor gan dderbyn cerdyn arbennig gan y Frenhines.

Cynhaliwyd angladd preifat yn ôl ei dymuniad yn Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor ar 23ain o Ragfyr, 2021 yng ngofal y Canon Parchedig Andrew Loat, gyda chynorthwy gan Y Parchedig Heather Evans, Y Canon John Lewis, Aberaeron a'r Canon Michael Rees, Aberystwyth. Traddodwyd teyrnged hyfryd gan Lowri Jones. Yr organydd oedd Mr Maldwyn James. Rhoddwyd y blodau gan Glenys Jones, Llwyniorwerth Uchaf yn yr Eglwys. Dosbarthwyd y taflenni gan Elfed Lewis, Glanrheidol a Martin Griffiths, Ffosygrafel. Yr elorgludwyr oedd Rhun Jones, Rhidian Jones, Meirion Jones ac Iwan Jones. Canwyd y gloch gan Mr Dei Charles Evans, Tŷ Poeth.

Cydymdeimlir yn ddiffuant iawn gyda theulu Abercwmdolau a theulu Llwyniorwerth Uchaf a'r holl gysylltiadau teuluol. Diolch yn fawr iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a'r cyfraniadau hael a dderbyniwyd er cof am Eiddwen. Derbyniwyd y swm anrhydeddus o £800 i Gronfa Offer Nyrsus Cymunedol y Borth (Meddygfa'r Llan) trwy law Mr Billy Evans, Penrhyn-coch.

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
07813 338647

Trydan WILL DAVEY
Gosodiad Trydanol Ardystiedig
Sain, Gweledol & Data
CCTV
Arolygu & Phrofi
NYTHFA, PANTYCRUG, ABERYSTWYTH SY23 4EF
07581 173 684 / 01970 880593 info@willdavey.co.uk @trydanwilldavey
APPROVED CONTRACTOR

# Ysgol **Rhydypennau**

**Eisteddfod yr Urdd.**
Llongyfarchiadau mawr i'r plant fu'n cynrychioli'r ysgol fyny yn Nimbych dros yr hanner tymor. Pleser o'r mwyaf oedd gweld Leisi Myrddin (Unawd Cerdd Dant blwyddyn 3 a 4) a'r Parti Cerdd Dant yn cystadlu ar lwyfan y pafiliwn coch ar ddechrau'r wythnos. Da iawn chi!

Hoffa'r ysgol ddiolch o galon i Eleri Roberts am ei chymorth dros yr wythnosau diwethaf yn hyfforddi'r plant i gyrraedd safon mor uchel.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i hanner arall y tîm hyfforddi sef Mrs Helen Williams am ennill Tlws John a Ceridwen Hughes Uwchaled. Braf oedd gweld Mrs Williams a Lorna Phillips yn derbyn cydnabyddiaeth am eu cyfraniad sylweddol i fywyd ieuenctid Cymru mewn seremoni arbennig ar Lwyfan y Cyfrwy yn ystod yr Eisteddfod.

**Ymweliadau**
Er mwyn canfod gwybodaeth am yr ymfudwr aeth draw i Batagonia ym 1865, roedd plant blwyddyn 5 a 6 yn awyddus i drefnu ymweliad i'r Llyfrgell Genedlaethol. Yno cafodd y plant fynediad at adnoddau gwerthfawr y Llyfrgell gan fwynhau gweithgareddau diddorol am y cyfnod arloesol hyn. Cafodd y plant gyfle hefyd i fwynhau taith o gwmpas y llyfrgell er mwyn canfod rhagor o wybodaeth am y gwaith unigryw sy'n digwydd yn y Llyfrgell. Diolch yn fawr iawn i Rhodri Morgan am ei gymorth i sicrhau diwrnod hynod o ddifyr i'r plant.

Diolch yn fawr i'r RNLI am daro mewn yn ddiweddar er mwyn atgoffa ni am y peryglon all wynebu ni oll wrth fwynhau diwrnod ar lan y môr.

Rhai diwrnodau yn ddiweddarach, aeth blwyddyn 3 a 4 draw at orsaf y bad achub wrth yr harbwr i gael golwg manylach ar y cwch arbed a dysgu am y gwaith arbennig sy'n digwydd yno.

***Cynefin y Cardi.***
Cafodd blwyddyn 6 gyfle i arddangos eu sgiliau arlunio yn ddiweddar wrth iddynt gyfrannu at brosiect arbennig ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Bu'r plant wrthi'n dylunio cyfres o luniau i gyfleu chwedl 'Cantre'r Gwaelod' ar gyfer cylchgrawn arbennig fydd yn ymddangos fel rhan o brosiect *Cynefin y Cardi*. Gyda chymorth Beth Saunders, CISP Multimedia, mi fydd yr argraffiad gorffenedig yn barod cyn hir ac mi fydd y cylchgrawn ar werth yn ei holl ogoniant ar faes Eisteddfod Tregaron fis Awst.







**Gorchest!**
Llongyfarchiadau mawr i Poppie Haynes, blwyddyn 6 am ddod yn ail yn Ras Feics y Prom i ferched ysgolion cynradd yn ystod yr hanner tymor.

Da iawn hefyd i Lili, Jac a Leisi Myrddin wrth iddynt gystadlu yn ras yr hafod yn ddiweddar. Campus!.

Da iawn i'r ddau dîm pêl droed fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth blynyddol yr Urdd ar gaeau Blaendolau yn ddiweddar. Pleser mawr oedd gweld y merched a'r bechgyn yn cael cyfle i gystadlu yn erbyn ysgolion eraill y sir.

**Beicio**
Braf oedd gweld plant blwyddyn 6 yn cael cyfle eleni i gwblhau cwrs beicio'r sir. Diolch i Mr Graham Marsh am hyfforddi'r plant dros yr wythnosau diwethaf.

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau:
*http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk*
*@YGRhydypennau-dilynwch ni ar drydar*











# Ysgol **Craig yr Wylfa**

**Ysgol Iach**
Diolch yn fawr i aelodau o'r RNLI am ddod i'r ysgol ac am ein dysgu sut i fod yn ddiogel ar y traeth. Mae eich negeseuon mor bwysig i ni gyd eu cofio, gan obeithio y cawn ni haf hyfryd o allu mwynhau ar lan y môr. Mae'n amlwg o'r lluniau fod y plant wedi cael awr ddifyr yn eich cwmni.

**Siarter Iaith**
Rydym yn ffodus o gael pobl weithgar yn hyrwyddo egwyddorion y Siarter Iaith yma yng Ngheredigion. Yn ystod y gaeaf, efallai i chi gofio bod Ysgol Craig yr Wylfa ac Ysgol Tal-y-bont wedi creu podlediad ar y cyd am bwysigrwydd Cors Fochno yn yr ardal. Yn ddiweddar, mae Ysgol Craig yr Wylfa wedi ymuno gyda holl ysgolion Ceredigion i greu tudalen mewn comic a fydd yn ymddangos erbyn yr Eisteddfod Genedlaethol. Diolch yn fawr i Beth o gwmni Cisp am y gweithdy ac am ein harwain drwy'r broses mor amyneddgar. Rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar at weld y gwaith mewn lliw llawn cyn hir.

**Gwasanaeth Tân**
Mae gan yr ysgol gysylltiad cryf iawn gyda'r Gwasanaeth Tân ac yn ystod mis Mai cafodd plant Cyfnod Allweddol 2 ymweliad arbennig gan Bethan. Roedd hi mor braf gallu ei chroesawu i'r dosbarth yn lle cynnal cyfarfod rhithiol. Gyda'r plant yn arfer defnyddio cymaint o wahanol declynnau trydanol o gwmpas y tŷ erbyn hyn, roedd y cynghorion ar sut i gadw'n ddiogel yn hynod werthfawr.

**Plant Cyn Ysgol**
Mae ein pecyn pontio arbennig yn parhau i ddwyn ffrwyth eto'r tymor yma. Cofiwch os oes gennych blant cyn oedran ysgol yn awyddus i ddechrau yn Ysgol Craig yr Wylfa, cofiwch gysylltu efo ni i drafod beth allwn gynnig – 01970 871280.







**inc**
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
**CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION**
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
**01970 626 200**

**JONATHAN LEWIS**
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
LLWYNDAFYDD, CAPEL BANGOR ABERYSTWYTH

**GWASANAETH GARDDIO MYNACH**
**Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio**
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
**Ffoniwch Meirion:**
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

**LLAETH LLEOL ORGANIG**
ar gael yn y
Cwtsh Llaeth Aberystwyth a Machynlleth
www.llaethjenkinsmilk.co.uk
07813 827 712
@cwtshllaeth




Croeso i deuluoedd
6 teledu gyda Sky Sports
Lle i eistedd tu allan a bwyty mawr
Bwrdd 'pool' a byrddau darts
Bwyty a Bwyd wedi'i gludo ar gael am ddim
TAFARN Y ROOSTERS
HOME OF/CARTREF I CPD PENRHYNCOCH FC
01970 828 992

# Ysgol **Pen-llwyn**

**Gweithdy Rhithiol Prosiect Paneli Comig Cynefin Eisteddfod Tregaron**
Cynhaliwyd gweithdy gwych gan Beth o gwmni CISP multimedia Ltd i flwyddyn 5 a 6 ar gyfer dechrau dylunio ein panel comig ar gyfer Prosiect Cynefin Eisteddfod Tregaron. Mae ein ffocws ar Dafydd ap Gwilym, bardd enwog ein cynefin. Aethom am dro i'w fan geni - sef Brogynin a gwneud ymchwil amdano ar gyfer y prosiect. Diolch enfawr i Anwen Eleri Cardi Iaith am drefnu.

**Bl 3 a 4 Gweithdy Crochenwaith**
Eleni eto cafodd yr Ysgol wahoddiad gyda'r adran grochenwaith i gymryd rhan mewn prosiect ar yr Ail Ryfel Byd. Creuwyd modelau hyfryd o Ifaciwis - pob un yn dangos manylion perthnasol dros ben!

**Cystadleuaeth Darllen dros Gymru**
Cystadleuaeth rydyn yn hoffi bob blwyddyn yw'r gystadleuaeth 'Darllen dros Gymru'. Roedd gennym ni ddau grŵp o flwyddyn 3 a 4 yn trafod y llyfr *Trio* gan Manon Steffan Ros. Nod y gystadleuaeth oedd trafod cynnwys y llyfr ac i ymateb yn dda fel grŵp ar sylwadau ei gilydd. Daeth llwyddiant eleni eto wrth i grŵp Mabli, Iona, Jac ac Elis ddod i'r brig ac i grŵp Rhys, Mya, Alisha a Florence ddod yn ail! Tipyn o gamp yn wir!
Daeth llwyddiant hefyd i grŵp Bl 5 a 6 wrth iddyn nhw drafod y llyfr *Y Crwt yn y Cefn* gan Onjali Q. Rauf a sicrhau'r 3ydd safle! Chwifio baner yr Ysgol unwaith eto!!


**Eisteddfod yr Urdd - Dinbych**
Llongyfarchiadau anferthol i griw o fechgyn a fentrodd i'r llwyfan mawr yng nghystadleuaeth Ensemble lleisiol! Diolch i Mr Williams am eu hyfforddi - Y criw oedd -Aron, Cayden, Twm, Caio, Gruffudd, Harrison, Rhys a Jac ac fe ganon nhw 'Hei ti'n cŵl'. Roeddech yn gŵl iawn hefyd!!

Hefyd llongyfarchiadau mawr i Jac Jenkins wrth iddo ennill y gystadleuaeth Dylunio a Thechnoleg i fl 3 a 4 ac i Florence Ifan am ddod yn drydydd gyda'r gwaith Crochenwaith - ardderchog!
Adran Pen-llwyn

**Project Celf**
Braf oedd cydweithio gydag Ysgol Syr John Rhys ac Ysgol Mynach ar brosiect celf i ddathlu Sioe Aberystwyth yn 75! Yr artist Marian Haf o Fronnant oedd yn cydlynu'r prosiect ac roedd dosbarth 2 wedi creu 'Rosette' yr un wrth iddyn nhw ddewis darlun o fyd y sioe!

**Bookslam**
Llwyddiant unwaith eto i dîm Bookslam yr ysgol wrth iddynt ennill y gystadleuaeth ranbarthol wedi trafod y llyfr *The Infinite* gan Patience Agbabi. Llongyfarchiadau i Issy, Sandy, Manon a Llinos a sicrhaodd le i ddisgyblion yn y gystadleuaeth Genedlaethol. Dymunwn bob llwyddiant wrth i Manon, Llinos, Anwen, Gryffydd, Issy, a David wrth iddynt fynd ymlaen i gynrychioli Ysgol Pen-llwyn trwy greu ffilm yn hysbysu'r llyfr *10 stories from Welsh History that everyone should know about Wales* gan yr awdur Ifan Morgan Jones a darluniadau gan Telor Gwyn.







**Gweithdy Rhithiol Prosiect Paneli Comig Cynefin Eisteddfod Tregaron**
Cynhaliwyd gweithdy gwych gan Beth o gwmni CISP multimedia Ltd i flwyddyn i gyfnod Allweddol 2ar gyfer dechrau dylunio ein panel comig ar gyfer Prosiect Cynefin Eisteddfod Tregaron. Mae ein ffocws ar Drên Bach y Rheidol, sydd â gorsaf yng Nghapel Bangor. Diolch enfawr i Anwen Eleri Cardi Iaith am drefnu.

## Gyda'n gilydd - Ysgol **Penrhyn-coch** a **Phen-llwyn**

**Staff**
Braf oedd croesawu Ms Catryn Lawrence a Miss Rhian Cory yn ôl i'r ddwy ysgol wedi eu cyfnodau mamolaeth. Croeso mawr iddynt a diolch i'r staff fu'n cyflenwi yn eu habsenoldeb.

**Gwersi Pwyleg**
Braf oedd cael gwersi Pwyleg gan un o ddisgyblion Bl 3 Ysgol Penrhyn-coch. Mae teulu Kai o Wlad Pwyl ac mae'n rhugl yn y Bwyleg. Fe fuodd Kai ar safle Pen-llwyn ac fe ddysgodd lawer i ddisgyblion CA2! Arfer ardderchog i rannu 'Llais ein disgyblion' ar draws y ddau safle!

**Pêl Rwyd**
Da iawn i ferched y ddwy ysgol am gymryd rhan yn Nhwrnament Pêl Rwyd yr Urdd ym Mhontrhydfendigaid.

**Neges ewyllys da'r Urdd**
Neges eleni oedd Newid Hinsawdd ac fe rannodd pob disgybl y neges ar ein gwefannau cymdeithasol. Dyluniodd y mwyafrif lun o'r byd a chreu dymuniad o obaith am ein bydysawd a beth hoffwn weld yn newid er mwyn gwella.

**Ymweliad o'r Gwasanaeth Tân**
Diolch i Miss. Bethan o'r Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru am roi gwers ar ddiogelwch yn y cartref i flynyddoedd 1, 2, 5 a 6.

**Gŵyl Hoci Ceredigion Actif**
Cyfle i dîm hoci o'r naill ysgol

# Ysgol **Penrhyn-coch**

**Gweithdy Rhithiol Prosiect Paneli Comig Cynefin Eisteddfod Tregaron**
Cynhaliwyd gweithdy gwych gan Beth o gwmni CISP multimedia Ltd i flwyddyn 5 a 6 ar gyfer dechrau dylunio ein panel comig ar gyfer Prosiect Cynefin Eisteddfod Tregaron. Mae ein ffocws ar Dafydd ap Gwilym, bardd enwog ein cynefin. Aethom am dro i'w fan geni - sef Brogynin a gwneud ymchwil amdano ar gyfer y prosiect. Diolch enfawr i Anwen Eleri Cardi Iaith am drefnu.

**Bl 3 a 4 Gweithdy Crochenwaith**
Eleni eto cafodd yr Ysgol wahoddiad gyda'r adran grochenwaith i gymryd rhan mewn prosiect ar yr Ail Ryfel Byd. Crewyd modelau hyfryd o Ifaciwis - pob un yn dangos manylion perthnasol dros ben!

**Cystadleuaeth Darllen dros Gymru**
Cystadleuaeth rydyn yn hoffi bob blwyddyn yw'r gystadleuaeth 'Darllen dros Gymru'. Roedd ganddon ni ddau grŵp o flwyddyn 3 a 4 yn trafod y llyfr *Trio* gan Manon Steffan Ros. Nod y gystadleuaeth oedd i drafod cynnwys y llyfr ac i ymateb yn dda fel grŵp ar sylwadau ein gilydd.Daeth llwyddiant eleni eto wrth i grŵp Mabli, Iona, Jac ac Elis ddod i'r brig ac i grŵp Rhys, Mya, Alisha a Florence ddod yn ail! Tipyn o gamp yn wir!

Daeth llwyddiant hefyd i grŵp Bl 5 a 6 wrth iddyn nhw drafod y llyfr *Y Crwt yn y Cefn* gan Onjali Q. Rauf a sicrhau y 3ydd safle!

Chwifio baner yr Ysgol unwaith eto!!

**Ymweliad o'r Gwasanaeth Tân**
Diolch i Miss. Bethan o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru am roi gwers ar ddiogelwch yn y cartref i flynyddoedd 1, 2, 5 a 6.

**Pêl Rwyd**
Da iawn i ferched y ddwy ysgol am gymryd rhan yn Nhwrnament Pêl Rwyd yr Urdd ym Mhontrhydfendiagaid.

**Eisteddfod yr Urdd-Dinbych**
Llongyfarchiadau anferthol i griw o fechgyn a fentrodd i'r llwyfan mawr yng nghystadleuaeth yr Ensemble lleisiol! Diolch i Mr Williams am eu hyfforddi - Y criw oedd -Aron, Cayden, Twm, Caio, Gruffudd, Harrison, Rhys a Jac ac fe ganon nhw 'Hei ti'n cŵl'.





Roeddech yn cŵl iawn hefyd!! Hefyd llongyfarchiadau mawr i Jac Jenkins wrth iddo ennill y gystadleuaeth Dylunio a Thechnoleg i fl 3 a 4 ac i Florence Ifan am ddod yn drydydd gyda'r gwaith Crochenwaith - ardderchog!

a'r llall gystadlu yn erbyn timoedd o ysgolion arall. Nae, wrth gwrs, draddodiad cryf o lwyddiant gyda hoci ym Mhenrhyn-coch, felly braf oedd i Ben-llwyn gystadlu gyda thîm hoci am y tro cyntaf. Gêmau cyfeillgar, ond llwyddiant ysgubol i Benrhyn yn ennill pob gêm, heb unrhyw un yn sgorio pwynt yn eu herbyn. Dechreuad gwych i Ben-llwyn gyda' nhw'n ennill 2 gêm ac un gêm gyfartal. Diolch i Geredigion Actif am drefnu.









# Tasg y Tincer

Diolch i bawb liwiodd llun Mr Urdd yn cario'r gacen ben-blwydd. Tybed oedd yna gant o ganhwyllau arni? Dyma'r enwau: Megan Thomas, Cwmerfyn; Leif Medhurst, Penrhyn-coch; Math Gruffudd Davies, Cefn-llwyd; Magi Davies, Caernarfon; Hanna, Treganna, Caerdydd; Jack Herron, Bow Street. Roedd eich gwaith yn wych! Dy enw di, **Math**, ddaeth o het wlân Mr Urdd yn gynta y tro hwn. Llongyfarchiadau enfawr!



Math

Gobeithio i chi fwynhau'r gwyliau hanner tymor. Dwi'n siŵr fod sawl un wedi mentro i faes y Steddfod yn Ninbych. On'd oedd hi'n ŵyl arbennig? Oes eisiau gofyn a wylioch chi'r gêm bêl-droed yn erbyn Wcráin? Falle fod rhai ohonoch yn y stadiwm. Am ganlyniad gwych i Gymru – amdani, bois! Dyw Cymru ddim wedi cyrraedd cystadleuaeth Cwpan y Byd ers 1958 – dros 60 mlynedd! Daw mis Tachwedd yn sydyn iawn, pryd y bydd ein tîm yn teithio i Qatar. Dyma rai ffeithiau am y wlad honno:

Mae hi'n wlad yn y Dwyrain Canol

Mae tua 3 miliwn o bobl yn byw yno

Al Dawha yw'r brifddinas

Arabeg yw'r iaith swyddogol ac Islam yw'r grefydd swyddogol

Yr orycs Arabaidd yw anifail cenedlaethol y wlad – math o afrewig (antelope) â chyrn hir.



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

Y tro hwn, gan mai hwn yw'r rhifyn olaf cyn diwedd y tymor a gwyliau'r haf, beth am liwio llun y traeth hyfryd? Hoffwn i gael gwyliau yn y goleudy, a chasglu cregyn o bob math o'r traeth. Falle bod dolffiniaid yn y tonnau – welais i rai yn harbwr Aberystwyth heddiw! Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn Medi 1af. Pob hwyl i chi i gyd dros wyliau'r haf!

ISSN 0963-925X

9 770963 925009

*Rhif 450 | Mehefin 2022*